Byd Sy'n Newid: Gwerthoedd sy'n parhau

Arolwg Cynaladwyedd 2010

Amdanom ni

BT yw un o gwmnïau gwasanaethau cyfathrebu mwyaf blaengar y byd, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid yn y DU a thros 170 o wledydd ar draws y byd.

Canlyniadau'r Grŵp

	2010	2009[a]	Change
Refeniw wedi'i gymhwyso [b,c]	£20,911m	£21,431m	↓2%
EBITDA wedi'i gymhwyso [b,c,d]	£5,639m	£5,238m	↑8%
Elw cyn treth wedi'i gymhwyso[b,c]	£1,735m	£1,454m	↑19%
Enillion fesul siâr wedi'u cymhwyso[b,c]	17.3p	14.1p	↑23%
Difidend blwyddyn lawn arfaethedig	6.9p	6.5p	↑6%
Llif arian rhydd[c]	£1,933m	£737m	↑£1,196m
Dyled net[c]	£9,283m	£10,361m	↓£1,078m

2010 Refeniw allanol wedi ei gymhwyso yn ôl y math o fusnes



- BT Global Services **41%**
- BT Retail **38%**
- BT Wholesale **15%**
- Openreach **6%**

2010 EBITDA wedi ei gymhwyso yn ôl y math o fusnes

- BT Global Services **8%**
- BT Retail **33%**
- BT Wholesale **23%**
- Openreach **36%**

a Ail-nodwyd ar gyfer mabwysiadu'r gwelliant i IFRS2, gweler ein Hadroddiad Blynyddol a Ffurflen 20-F am ragor o fanylion.
b Nodir eitemau sydd wedi eu cymhwyso o flaen yr eitemau penodol, costau contract a chostau arolwg ariannol BT Global Services yn 2009 a'r llog net ar bensiynau.
c Mae refeniw wedi ei gymhwyso, EBITDA (enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad) wedi ei gymhwyso, elw cyn treth wedi ei gymhwyso, enillion fesul siâr wedi eu cymhwyso, llif arian rhydd a dyled net yn fesurau 'non-GAAP' a ddarperir yn ychwanegol at ofynion datgelu yr IFRS. Caiff y sail rhesymegol dros ddefnyddio mesurau a chysoniadau 'non-GAAP' sydd agosaf at y mesurau IFRS cyfatebol eu cynnwys yn yr adran Arolwg Ariannol o'n Hadroddiad Blynyddol a Ffurflen 20-F.
d EBITDA: Enillion cyn llog, treth, dibrisiad ac amorteiddiad.

Ein strwythur

Rydyn ni'n cwrdd ag anghenion ein gwahanol grwpiau o gwsmeriaid drwy bedair cangen o'n grwpiau busnes ar gyfer y cwsmeriaid – BT Global Services, BT Retail, BT Wholesale ac Openreach. Caiff y rhain gefnogaeth drwy ddwy uned sy'n gwasanaethu'n fewnol – BT Innovate & Design a BT Operate.



Ein cynnyrch a'n gwasanaethau

Mae ganddon ni bortffolio o tua 1800 o gynnyrch a gwasanaethau. Rydyn ni'n eu gwerthu i ddefnyddwyr a mentrau bach a chanolig yn y DU, ac ar draws y byd i gorfforaethau cenedlaethol a rhyng-genedlaethol, adrannau llywodraeth a darparwyr cyfathrebu eraill.

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'n busnes ar hyd a lled byd dros y flwyddyn 1 Ebrill 2009 hyd 31 Mawrth 2010, oni nodir yn wahanol.

Gallwch lawrlwytho'r arolwg hwn mewn ieithoedd eraill (Tsieinëeg, Is-Almaeneg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Japanëeg, iaith Korea a Sbaeneg) a gallwch weld ein hadroddiad cynaladwyaeth yn gyflawn ar **www.bt.com/betterworld**

Cynnwys

1 Neges oddi wrth ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr
2 Yn yr arolwg hwn
3 Technoleg ar gyfer byd o gyswllt
6 Technoleg ar gyfer economi carbon isel
9 Sgiliau ar gyfer BT cynaladwy
12 Ffeil ffeithiau busnes cyfrifol
14 Gwneud i bethau ddigwydd
15 Barn eraill
16 Sut gwnaethon ni eleni

Neges oddi wrth ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr

Mae ein cymdeithas yn wynebu sialensiau enfawr o newid yn yr hinsawdd a phrinder adnoddau i faterion sy'n codi yn sgil poblogaethau sy'n heneiddio, tlodi ac eithrio cymdeithasol a digidol. Credwn fod gan y byd busnes rôl allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â'r sialensiau hyn. Yn BT anelwn i wneud hyn mewn partneriaeth â'n gweithlu, ein cyflenwyr a'n cwsmeriaid.

Sir Michael Rake
Cadeirydd

Ian Livingston
Prif Weithredwr

Gall technoleg cyfathrebu ein helpu ni i gyd i fyw a gweithio mewn ffyrdd mwy cynaladwy - yn BT gwyddom hyn o brofiad. Mae gwasanaethau cynadledda yn caniatáu i ni leihau'r angen i deithio. Mae dulliau newydd o storio data yn ein cynorthwyo i ostwng costau ac anghenion egni. Mae mynediad i wybodaeth, ble bynnag a phryd bynnag rydyn ni ei angen, yn newid ein dull o weithio. Rydyn ni'n helpu cwsmeriaid i barhau i dderbyn yr un manteision, gwella effeithlonrwydd, torri costau ac allyriadau CO. Drwy ddefnyddio'n technoleg, ein talentau a'n galluoedd gallwn gynorthwyo'r trawsnewid i economi carbon isel a chyfrannu at gymdeithasau sefydlog a ffyniannus. Gallwn wneud hyn ac ar yr un pryd gofalu am anghenion busnes megis lleihau ein costau gweithredu ac agor marchnadoedd newydd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi ychydig o enghreifftiau o'n dull o fynd ati.

Mae datblygu ein rhwydwaith band llydan uwch-gyflym yn y DU ymhlith y rhaglenni mwyaf yn Ewrop. Hwn fydd sail ein twf a bydd yn galluogi holl ddarparwyr cyfathrebu yn y DU i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau gyda manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Gwyddom, wrth i ni dyfu fel cwmni, y byddwn yn wynebu sialensiau o ran ein defnydd ni ein hunain o ynni. Eto i gyd, byddwn ni'n parhau i ymrwymo i ostwng ein harddwysedd carbon fyd eang 80% erbyn 2020 o'r hyn oedd yn 1997. Yn nhalaith Califfornia mae'r dull solar o bweru ein swyddfeydd a'n canolfan ddata wedi bod yn gweithredu ers blwyddyn gron. Yn y DU, rydyn ni wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer ein fferm wynt gyntaf, rhan o'n cynlluniau ar gyfer prosiect gwynt corfforaethol mwyaf y DU tu allan i'r sector ynni. Mae ein ffocws ar gael pethau'n iawn i gwsmeriaid ar y cynnig cyntaf hefyd yn dwyn ffrwyth; drwy wella 'iechyd ein rhwydwaith' rydyn ni wedi gostwng cyfraddau diffygion, ymweliadau trwsio ac allyriadau CO_2 o'n cerbydau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn fusnes cynaladwy a chyfrifol. Byddwn yn cefnogi datblygiad, ail-sgilio ac adleoli ein pobl mewn amgylchiadau economaidd da a gwael. Rydyn ni'n buddsoddi mewn sgiliau, talent a datblygu arweinyddion er mwyn paratoi ein pobl ar gyfer byd isel ei garbon. Bydd offer newydd a hyfforddiant ar gyfer ein timoedd cynnyrch yn ein helpu i gyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau mwy cynaladwy i'r farchnad megis y bocs BT Vision newydd sydd yn fwy ynni effeithlon.

Bydd ein fframwaith newydd ar gyfer prentisiaethau yn caniatáu i dros 5,000 o weithwyr cyflogedig gaffael galluoedd newydd a bydd ein rhaglen 'Work Inspiration' yn darparu lleoliadau gwaith yn BT ar gyfer 3,000 o bobl ifanc. Mae'r ffocws hwn ar sgiliau yn ymestyn tu hwnt i hyfforddiant ffurfiol – llynedd, treuliodd ein pobl ar draws y byd dros 28,000 o ddyddiau yn gwirfoddoli yn y gymuned. Mae gwirfoddoli yn rhoi cyfle i'n pobl i wneud gwahaniaeth yn eu cymunedau lleol ac yn datblygu eu sgiliau mewn modd a fydd o fudd iddyn nhw eu hunain, y gymuned a'n busnes.

Rydyn ni wrth ein bodd bod ein cynnydd yn cael ei gydnabod yn allanol. Er enghraifft, drwy Fynegai Cyfrifoldeb Corfforaethol a ddyfarnodd 'Platinum Plus', sef y dyfarniad uchaf, i ni am ein cyflawniadau a'n hymrwymiad parhaus. Am y tro cyntaf mewn naw mlynedd nid ni oedd ar ben Mynegai Cynaladwyedd y Dow Jones, ond rydym yn hapus ein bod wedi cadw ein statws lefel aur. Byddwn yn parhau â'n hymrwymiad i ragoriaeth wrth i ni symud ymlaen i ymgorffori cynaladwyedd yn ein busnes. Rydyn ni wedi llofnodi'r cytundeb Compact 'UN Global'.

Mae gennym gynlluniau cyffrous ar y gweill ar gyfer y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen i roi'r newyddion diweddaraf i chi ar ein cynnydd yn 2011.

Sir Michael Rake
Cadeirydd
12 Mai 2010

Ian Livingston
Prif Weithredwr

Business in the Community CR INDEX PLATINUM PLUS

sam 2010 gold class

THE QUEEN'S AWARDS FOR ENTERPRISE: SUSTAINABLE DEVELOPMENT 2008

Yn yr arolwg hwn

Cwmni cyfathrebu yw BT sy'n defnyddio peth o uwch dechnoleg mwyaf blaengar y byd. Ond does ganddon ni ddim diddordeb mewn technoleg er ei fwyn ei hunan. Rydyn ni'n gyffrous am yr hyn y gall ei wneud i'n cwsmeriaid, ein pobl, y cymunedau yr ydyn ni'n gweithio ynddyn nhw a'r blaned yr ydyn ni gyd yn dibynnu arni. Mae'r arolwg hwn yn egluro sut mae BT yn defnyddio gwasanaethau cyfathrebu a thechnoleg gwybodaeth (TG) er lles pobl a'r blaned mewn tri maes pwysig, a thrwy wneud hyn yn creu gwell busnes gyda gwell dyfodol.

Technoleg ar gyfer byd o gyswllt

Mae TG wedi trawsnewid y modd yr ydyn ni'n gweithio a chyfathrebu ac mae'n gwella'r dull o ddarparu gwasanaethau hanfodol megis gofal iechyd. Mae BT yn buddsoddi mewn TG a seilwaith cyfathrebu yr economi digidol tra'n ceisio manteisio i'r eithaf ar ei gryfderau a lleihau cymaint â phosib ar ei wendidau

Technoleg ar gyfer dyfodol carbon isel

Mae gan y sector cyfathrebu y potensial i ostwng allyriadau CO_2 15% yn fyd eang erbyn 2020. Rydyn ni wedi lleihau ein hôl troed carbon o 51% o'r hyn oedd lefel 1997 ac rydyn ni'n helpu cwsmeriaid i wneud yr un modd. Rydyn ni'n wynebu'r sialens gyson bod cyflenwi mwy o wasanaethau, a hynny'n gyflymach, i gwsmeriaid yn defnyddio mwy o drydan.

Sgiliau ar gyfer BT cynaladwy

Mae ein buddsoddiad mewn sgiliau drwy hyfforddi a gwirfoddoli yn ein galluogi i gael gwybod am y newid technolegol diweddaraf, cynorthwyo'r cymunedau yr ydyn yn gweithredu ynddyn nhw a helpu i daclo sialensiau mawr megis newid yn yr hinsawdd a chynhwysiad cymdeithasol. Mae ein hen ymrwymiadau dros amrywiaeth a gweithio hyblyg yn ein helpu i gadw sgiliau a chynnwys talent o ffynonellau newydd.

Rydyn ni eisoes wedi gweld potensial technoleg i newid y ffordd yr ydyn ni'n byw a gweithio – o globaleiddio masnach i ymddangosiad rhith fusnesau a datblygiadau sy'n caniatáu i ni weld manylion tu mewn i'r corff dynol. Drwy'r rhyngrwyd, rydyn ni'n cael mynediad i swm enfawr o wybodaeth dim ond wrth bwyso botwm. Ond megis cychwyn y chwyldro digidol yw hyn ac mae'r newidiadau mwyaf eto i ddod.

Yn yr arolwg hwn rydyn ni'n cyhoeddi ein hagenda ymhob un o'r tri maes a nodir ar y chwith, yn crynhoi ein perfformiad yn y gorffennol a dangos sut yr ydyn ni'n mynd i'r afael â chyfleoedd newydd, risgiau a phroblemau sy'n codi yn sgil defnyddio technoleg. Rydyn ni hefyd yn rhannu rhai o'n syniadau ar sut bydd technoleg yn llunio'r byd a dangos sut gall BT gyfrannu at ddyfodol gwell. Rydyn ni'n cynnwys ffeil ffeithiau gydag uchafbwyntiau perfformiad a data sy'n egluro ein hymrwymiad i arferion busnes cyfrifol ar draws ein gweithrediadau ar dudalen 12 ac 13.

Strategaeth ein cyfrifoldeb corfforaethol (CC/CR)

Mae cynnwys yr arolwg hwn yn adlewyrchu pedwar piler strategaeth ein cyfrifoldeb corfforaethol (CR):

- **Gweithredu fel busnes cyfrifol a chynaladwy**
  Gwyddom fod llwyddiant yn deillio o seiliau cadarn ac ymrwymiad i weithredu cyfrifoldeb a chynaladwyedd ymhob maes o'n busnes, cynorthwyo ein pobl, ein cwsmeriaid a'n cyflenwyr a'r cymunedau yr ydyn ni'n gweithio ynddyn nhw.
- **Helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**
  Rydyn ni'n gweithio gyda'n gweithlu a chyflenwyr i leihau ein defnydd o ynni.
- **Datblygu atebion cynaladwy ar gyfer cwsmeriaid**
  Ein nod yw diwallu galw cynyddol cwsmeriaid am gynhyrchion hygyrch is eu carbon a gwasanaethau sy'n dod â manteision cymdeithasol yn eu sgil.
- **Sgiliau galluogi ar gyfer cymdeithas gynhwysol**
  Rydyn ni am chwarae ein rhan i greu byd o gyswllt lle mae pawb yn cael cyfle i fanteisio ar dechnoleg.

Technoleg ar gyfer byd o gyswllt

Rydyn ni am ddefnyddio technoleg er gwell, yn helpu cwsmeriaid a chymunedau i wella cynhyrchiant ac ansawdd bywyd – tra'n datblygu ein busnes.

Ni ddylai neb golli manteision ac rydyn ni wedi ymrwymo i helpu rhagor o bobl i ddefnyddio technoleg. Rhaid i ni hefyd gydweithio gyda gwneuthurwyr polisi ac eraill i ddelio â sialensiau perthnasol megis preifatrwydd, lladrad a materion diogelu data.

Mae technoleg eisoes wedi newid ein bywydau – sut a ble rydyn ni'n gweithio, siopa a mwynhau teledu, ffilm a cherddoriaeth; sut rydyn ni cysylltu â'n gilydd. Mae sawl un o'r effeithiau'n bositif ac y mae llywodraethau yn eu croesawu. Amlygodd Adroddiad 2009 Llywodraeth y DU ar Brydain Ddigidol y cyfleoedd mae TG yn eu darparu ar gyfer y gymdeithas a'r economi yn ogystal â'r gweithredu sydd ei angen i sicrhau y gall pawb elwa. Ceir canfyddiadau tebyg yng Nghynllun Band Llydan Cenedlaethol Comisiwn Cyfathrebu Ffederal Unol Daleithiau America a strategaeth 2020 yr UE ar gyfer cyflenwi manteision economaidd a chymdeithasol cynaladwy o farchnad ddigidol sengl.

Mae'r adran hon yn ffocysu ar ein rôl yn y DU lle rydyn ni'n darparu cynhyrchion ac atebion ar gyfer amrywiaeth o gwsmeriaid preswyl sengl i fentrau mawr.

Mynd i'r afael ag eithrio digidol
Safbwynt allanol

Helen Milner
Rheolwraig Gyfarwyddwraig, canolfannau ar-lein y DU

A allwn ni gael miliwn mwy o bobl ar-lein yn y DU yn ystod y tair blynedd nesaf? Gallwn. Ond pam ddylen ni drafferthu?

Mae'r defnydd o'r rhyngrwyd wedi treblu mewn llai na deng mlynedd. Erbyn hyn, y rhyngrwyd sy'n darparu cyfathrebu, masnach ac adloniant i'r mwyafrif ohonon ni. Erbyn y llynedd roedd gan 70% o gartrefi'r DU fynediad i'r rhyngrwyd – hyd at 11% mewn dim ond deuddeg mis. Fodd bynnag, doedd un o bob pump oedolyn – 9.4 miliwn o bobl – erioed wedi bod ar-lein ac wedi'u heithrio rhag y manteision sydd i'w cael ar y rhyngrwyd. Dim ond ar-lein mae un deg tri y cant o swyddi newydd ar gael, tra bod defnyddwyr y rhyngrwyd yn arbed £560 y flwyddyn drwy'r disgownts sydd ar gael ac yn teimlo eu bod mewn cyswllt agosach gyda'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Blaenoriaeth canolfannau ar-lein y DU dros y tair blynedd nesaf yw cael un miliwn mwy o bobl ar-lein. Rydyn ni'n ceisio cael bob un ohonyn nhw'n ddefnyddwyr TG hyderus. Gall cyflogwyr uchel eu proffil fel BT helpu; gall eu staff wirfoddoli i gynorthwyo sefydliadau sylfaenol, yn gweithio gyda'r rhai a eithriwyd yn ddigidol a throsglwyddo'u gwybodaeth o TG i bobl y maen nhw'n eu hadnabod sydd wedi'u heithrio'n ddigidol. (gweler **www.helppassiton.co.uk**). Drwy gydweithio, gallwn sicrhau bod pobl ein gwlad yn gallu cysylltu â'i gilydd yn well.

Sicrhau bod y seilwaith yn iawn

Ni sylweddolir darpar fanteision technoleg heb gael y seilwaith TG diweddaraf, dibynadwy a diogel.

Rydyn ni'n buddsoddi £1.5bn ac yn anelu i sicrhau bod gwasanaethau band llydan cyswllt-ffibr ar gael i o leiaf 40% o adeiladau yn y DU yn 2012 – y buddsoddiad mwyaf mewn band llydan ffibr uwch-gyflym erioed yn Ewrop. Ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau ffibr ar gael i 4 miliwn o adeiladau yn y DU erbyn diwedd 2010. A bod yr amgylchedd yn dderbyniol ar gyfer buddsoddi, rydyn ni'n rhagweld y potensial i ymestyn ein datblygiad ffibr i ddwy ran o dair o'r DU erbyn 2015. Bydd darparwyr cyfathrebu eraill yn gallu cysylltu'n gyflym a hawdd â'n rhwydwaith a chyflenwi gwasanaethau band llydan uwch-gyflymi'w cwsmeriaid. eu hunain.

£1.5bn
Buddsoddiad mewn band llydan ffibr
Yn dod ag e i o leiaf 40% o safleoedd yn y DU yn 2012

Bydd rhai lleoliadau, ardaloedd gwledig ac anghysbell yn arbennig, lle mae angen arian y sector cyhoeddus neu gymorth arall i wneud band llydan uwch-gyflym yn ymarferol a dichonadwy yn fasnachol. Mae gan bartneriaethau ran bwysig i'w chwarae i sicrhau na fydd neb yn colli unrhyw gyfle masnachol, addysgol a chymdeithasol y mae'r rhyngrwyd yn ei gynnig. Er enghraifft, rydyn ni mewn partneriaeth yng Ngogledd Iwerddon i ddatblygu band llydan ffibr mewn ardaloedd trefol a gwledig trwy fuddsoddiad ar y cyd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mae datblygu band llydan uwch-gyflym yn adeiladu ar ein buddsoddiad yn seilwaith y DU sydd eisoes wedi helpu i ddod â band llydan i dros 90% o adeiladau. Ein rhwydwaith 'wi-fi' yw'r mwyaf yn y DU ac Iwerddon yn cynnwys dros 1.5 miliwn o fannau poeth. Rydyn ni'n cefnogi'r nod o ddod ag o leiaf 2Mbps cyflymder band llydan i bob cartref bron yn y DU erbyn 2012. Rydyn ni'n parhau i ddatblygu gwasanaethau i wella mynediad mewn ardaloedd anghysbell.

Polisi rhyngrwyd
Safbwynt BT

Simon Milner
BT Cyfarwyddwr Polisi Diwydiant Grŵp

Rydyn ni'n cefnogi nod llywodraeth fyd eang i greu economïau digidol lle gall pawb gael manteision o fod ar-lein. Bydd y modd y mae'r DU yn defnyddio TG yn effeithio ar yr amgylchedd, yr economi ac ansawdd bywyd.

Wrth gefnogi'r ymdrechion hyn, rydyn yn wynebu galwadau sy'n gwrthdaro o ran y cyhoedd. Anogir ni i adeiladu gallu rhyngrwyd cyflymach, mwy dibynadwy tra'n rhwystro'i ganlyniadau llai dymunol, megis rhannu cynnwys hawlfreintiedig heb ganiatâd drwy dechnolegau 'cyfoedion i gyfoedion' – elfen bwysig Deddf Economi Digidol y DU.

Rhaid cydbwyso rhyddid mynegiant yn erbyn galwadau i gywiro ymddygiad rhai o ddefnyddwyr y rhyngrwyd ac i ddiogelu modelau busnes y mae technolegau'n eu bygwth a'r modd y mae pobl yn ei ddefnyddio. Yn y rhan fwyaf o achosion, y cwsmeriaid sydd i benderfynu ar y rheswm dros ddefnyddio'r rhyngrwyd. Nid ein lle ni yw barnu'r hyn sy'n gywir neu'n anghywir, atal mynediad neu sensro gwybodaeth. Materion i'r awdurdodau cyhoeddus gan gynnwys y llysoedd yw'r rhain.

Y rheswm dros ymyrryd yw cadw ein rhwydweithiau a'n gwasanaethau i redeg yn effeithiol ac, mewn achos eithriadol, atal mynediad i ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol a nodwyd gan Sefydliad Annibynnol 'Watch' y Rhyngrwyd. Ceir galwadau i ni ffrwyno cynnwys neu gymwysiadau eraill ond byddai cyflwyno rheolfeydd a rhwystrau yn llesteirio'n gallu i ddarparu mynediad cyflym a dibynadwy i'r rhyngrwyd y mae ein cwsmeriaid yn galw amdano.

Dydy bod yn ddiduedd ddim yn golygu ein bod yn ddifater. Rydyn ni'n rhoi grym i'n cwsmeriaid i ddefnyddio'r rhyngrwyd a chynnig gwasanaethau preifat a diogel megis Amddiffyn y Teulu BT (BT Family Protection), fel y gall rhieni ddewis beth all eu teulu gyrchu heb gyfyngu ar ddewis defnyddwyr eraill.

Rydyn ni'n parhau i annog dadl gyhoeddus ar y materion cymhleth hyn a gweithredu yn seiliedig ar gytundeb cyffredinol.

Rhwydweithiau diogel a chadarn

Mae darparu amgylchedd ar-lein diogel a chadarn yn hanfodol er mwyn i bawb deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd. Rhaid i gwsmeriaid allu diogelu eu gwybodaeth rhag cael ei defnyddio heb awdurdod neu weithgaredd troseddol ac ni ddylai pobl agored i niwed gael gweld cynnwys amhriodol. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau sy'n helpu cwsmeriaid i amddiffyn eu data a'u preifatrwydd – o nodweddion diogelwch yn holl becynnau band llydan cwsmeriaid a BT PC Security ar gyfer cwsmeriaid busnes hyd at wasanaethau diogelu a reolir yn llawn ar gyfer ein cwsmeriaid mwyaf. Rydyn ni'n gweithio gyda diwydiant a'r llywodraeth ar fentrau i wella diogelwch plant ar-lein gan gynnwys Cyngor y DU ar Ddiogelwch Rhyngrwyd ar gyfer Plant. Gweler **www.dcsf.gov.uk/ukccis**

Band llydan cyflym yn cynorthwyo arloesiad

Mae adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Gweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dangos bod rhwydweithiau band llydan cyflym yn cynorthwyo arloesiad yn yr economi yn yr un modd ag y gwnaeth rhwydweithiau trydan a thrawsgludiant yn y gorffennol.

Mae'n annog llywodraethau i fuddsoddi mewn rhwydweithiau band llydan cyflym cenedlaethol mynediad agored a all wasanaethu fel y darpar fecanwaith cyflenwi ar gyfer amrediad eang o wasanaethau newydd arloesol megis gridiau trydan smart, tele-feddyginiaethau, rhwydweithiau trawsgludiant deallus, dysgu rhyngweithiol a chyfrifiadura cwmwl.

Mae'r adroddiad yn dangos y gall rhwydweithiau band llydan cenedlaethol dalu am eu hunain o fewn deng mlynedd drwy arbedion effeithlonrwydd dramatig mewn trydan, gofal iechyd, cludiant ffordd ac addysg. Darllenwch Adroddiad 'Network Developments in Support of Innovation and User Needs' ar **www.oecd.org**

Gwella gwasanaethau hanfodol

Rydyn ni eisoes yn defnyddio technoleg i helpu cwsmeriaid y sector cyhoeddus i wella cyflenwad a chynyddu mynediad i wasanaethau hanfodol megis gofal iechyd ac addysg. Isod ceir proffil o ddwy enghraifft diweddar.

Mae rhwydwaith y band llydan cenedlaethol ar gyfer Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol Lloegr (GIG) y mae BT yn gyflenwi yn cysylltu ysbytai, canolfannau meddygol a meddygon teulu ac mae'n galluogi gofal sydd wedi'i ganoli mwy ar y cleifion. Er enghraifft, mae meddygon yn Ysbyty Darent Valley a St Thomas yng Nghaint erbyn hyn yn defnyddio'r band llydan i anfon delweddau 'angiogram' ar eu hunion a chynnal trafodaeth amser real gydag arbenigwyr yn Llundain. Gall cleifion nawr dderbyn eu triniaeth 'angioplasty' yn ddiogel yng Nghaint yn hytrach na theithio i Lundain.

Mae ein cyd-fenter gyda Chyngor Sirol Suffolk a Chyngor Dosbarth Mid Suffolk, Customer Service Direct (CSD), yn defnyddio uwch rwydweithiau TG a thechnegau gwasanaethau cwsmeriaid i wella gofal cymdeithasol. Mae pobl CSD yn cydweithio gyda gweithlu cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol i asesu anghenion y cwsmer. Mae hyn yn golygu mai dim ond gydag un person mae rhaid i'r cwsmer siarad er mwyn derbyn eu gofal a dim ond yr achosion mwyaf cymhleth sy'n cael eu cyfeirio at arbenigwyr gan ryddhau pobl broffesiynol maes gofal cymdeithasol i drin y bobl sydd â'r angen fwyaf.

Technoleg i bawb

Yn aml, mae cysylltiad agos rhwng eithrio cymdeithasol ac eithrio digidol. Mae pobl ar incwm isel neu'n ddi-waith a phobl hŷn yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngrwyd gartref. Wrth i fwy a mwy o weithgareddau gael eu cynnal ar-lein, gallai'r rhai sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd gael llai o fynediad i swyddi, addysg, hyfforddiant a gwasanaethau'r llywodraeth. Amcangyfrifir mai £22 biliwn fydd y fantais economaidd o gael pawb ar-lein yn y DU (yr Achos Economaidd ar gyfer Cynhwysiad Digidol – Hydref 2009).

Rydyn ni'n cefnogi ymdrechion i sicrhau bod mwy o bobl yn elwa o'r oes ddigidol, megis Race Online 2012, menter a lansiwyd gan 'Digital Inclusion Champion' y DU i roi cyfle i bobl sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol a digidol i fynd ar-lein. Ein nod yw cael o leiaf 100,000 o bobl sydd, ar hyn o bryd wedi'u heithrio'n ddigidol ar- lein erbyn 2012. Ymhlith rhaglenni eraill i symud rhwystrau i gymhwysiad digidol mae:

- Gwefan BT Internet Rangers, sy'n darparu modd i bobl ifanc addysgu perthnasau hŷn sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd.
- Un Economi (One Economy), yn Unol Daleithiau'r Amerig lle rydyn ni'n darparu cymorth dros ddwy flynedd i helpu pobl ifanc i addysgu oedolion sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd.
- Cymorth i Bawb Ar-lein a gynhelir gan 'Citizens Online' sy'n helpu pobl dan anfantais ar draws y DU i ddefnyddio technoleg digidol. Rydyn ni hefyd yn cynorthwyo Age UK sy'n annog pobl hŷn i ddefnyddio technoleg anghyfarwydd.
- Ein gwaith gyda Katha, elusen addysgol sy'n dod ag addysg a Hyfforddiant TG i blant dan anfantais yn yr India . Gyda'n help, ers 2001, mae Katha wedi dyfarnu dros 16,000 o dystysgrifau TG a dyfarnwyd 54% ohonyn nhw i ferched ifanc a menywod.

Rydyn ni'n datblygu cynhyrchion a gwasanaethau sy'n helpu pobl o bob gallu i gael y mwyaf posibl o TG. Drwy ymgorffori hygyrchedd ar draws amrediad ein cwsmeriaid, rydyn ni'n darparu cynhyrchion gydag apêl ehangach i'n cwsmeriaid. Er enghraifft, mae gwelliannau i'r BT Home Hub (ein llwybrydd rhyngrwyd diwifr) yn ei gwneud hi'n haws i bob cwsmer ei ddefnyddio.

Rydyn ni'n gwybod y gall cost fod yn rhwystr i rai cwsmeriaid. Lansion ni ein 'bwndeli' band llydan, galwadau a Vision TV gorau eu gwerth erioed yn 2010. Buon ni'n cydweithio ag eraill i ymgyrchu dros gyfraddau rhatach am groesgysylltu galwadau ffonau symudol (MTRs – y tâl y mae gweithredyddion yn ei godi i gysylltu galwadau o linell dir neu rwydweithiau eraill i ffonau symudol), i helpu gostwng biliau ffôn pob cwsmer, ac yn croesawu argymhelliad Ofcom am MTRs rhatach. Mae PlusNet, un o fusnesau BT yn darparu gwasanaeth band llydan isel ei gost yn y DU.

Barn Panel Arweinyddiaeth BT

Yn fuan, bydd arnom angen y math o isadeiledd gweithredu rhyngrwyd y mae BT yn buddsoddi cymaint ynddo i ddisodli'n uniongyrchol yr isadeiledd ffisegol (a charbon arddwys/intensif). Fodd bynnag, rhaid i ni sicrhau na fydd y cysylltedd a weithredir ar y rhyngrwyd yn disodli'r cymunedau pobl y mae lles yr unigolyn a chyfalaf cymdeithasol yn dibynnu arnyn nhw. Gall 'rhith Seilwaith' fod yn beth da; gall 'rhith gymunedau ' fod yn rhywbeth truenus. Rhaid i arweinwyr TG megis BT gydnabod y problemau sy'n codi o ddefnyddio technoleg a delio gyda nhw a bod yn barod i ymateb i safbwyntiau amrywiol ac weithiau syniadau sy'n gwrthdaro. Rhaid ffocysu ar gynhwysiad digidol fel y gall pawb elwa o fanteision y byd a alluogir gan y rhyngrwyd.

Potensial y dechnoleg
Cip i'r dyfodol

Mae'n 07:03 a chithau'n cael eich deffro wrth i'r goleuadau gynnau'n araf yn eich ystafell wely. Ar ôl siafio, rydych chi'n gofyn i'r drych dynnu llun o'ch wyneb a'i gymharu a'r wythnos flaenorol. Rydych chi'n gofidio fod y marc man geni ar eich wyneb yn lledaenu. Mae'r drych yn dadansoddi'r llun a'i gymharu â'r miloedd o rai sydd wedi eu storio ar gronfeydd data meddygol. Caiff y canlyniadau eu hanfon at eich meddyg.

Mae eich merch wedi codi'n barod ac yn gwylio'r wers wyddoniaeth ddiweddaraf gan Dr Si ar ei dyfais symudol. Mae'r athro cyfrifiadurol hwn yn cyfuno dulliau addysgu'r goreuon o gyflwynwyr gwyddoniaeth i fod yn wersi wedi eu saernïo i apelio at wahanol fyfyrwyr. Ers iddi gychwyn ar y gwersi hyn mae ei diddordeb yn ei gwaith ysgol wedi cynyddu'n rhyfeddol.

Ar eich ffordd i'r gwaith cewch neges fod cyfrifiadur eich meddyg wedi dadansoddi'r lluniau ac yn argymell i chi gael apwyntiad. Rydych yn derbyn apwyntiad yn agos at leoliad eich cyfarfod yn y bore yn y ganolfan gynadledda byw. Mae'r gynhadledd fyw yn golygu bod eich cydweithiwr yn swyddfa Berlin a'ch darpar gleient newydd yn yr Unol Daleithiau o fewn ychydig fetrau i chi, er fod miloedd o filltiroedd yn eich gwahanu.

Wrth adael y ganolfan gynadledda cewch eich cyfeirio i'r ganolfan feddygol gan offer GPS. Caiff llun arall ei dynnu o'ch wyneb gan ddefnyddio camerâu sy'n gallu gweld o dan y croen, a chytunir mai codi'r man geni ydy'r opsiwn gorau. Mae robot awtomatig yn gwneud y gwaith. Bellach, caiff llawdriniaeth syml fel hyn ei gyflawni gan robot awtomatig, gan ganiatáu i lawfeddygon ganolbwyntio ar waith mwy cymhleth. Gellir rheoli'r robotiaid o hirbell, sy'n caniatáu i arbenigwyr ymgynghorol gyflawni llawdriniaeth ar gleifion filoedd o filltiroedd i ffwrdd.

Ar ôl y driniaeth, rydych yn derbyn neges fod cyflenwad moddion clefyd y galon eich tad oedrannus yn prinhau. Rydych ar fin clicio ateb i drefnu bod y moddion yn cael ei anfon yn awtomatig, ond yn ailfeddwl. Dydych chi heb ei weld ers tro, felly'n penderfynu dilyn yr hen drefn, gan alw heibio'r fferyllfa a mynd a nhw yno ar eich ffordd adref.

Ian Neild
Cenhadwr technoleg BT

Technoleg ar gyfer economi carbon isel

Mae newid yn digwydd yn yr hinsawdd a bydd ei effeithiau'n bellgyrhaeddol. Mae angen syniadau a thechnolegau newydd i drawsnewid ein ffordd o fyw a gweithio.

Er mwyn osgoi effeithiau mwyaf peryglus y newid yn yr hinsawdd, rhaid i lywodraethau, busnesau ac unigolion ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sylfaenol. Mae newid ar y raddfa hon angen trawsnewidiad sylfaenol nid gwelliannau cynyddol.

Bydd TG o help sylweddol i'r rhan fwyaf o sectorau symud i economi isel ei garbon drwy helpu i fonitro a gostwng y defnydd o ynni a disodli cynhyrchion a gweithgareddau ffisegol gyda rhith gynhyrchion a gweithgareddau. Eisoes, mae galw am gynhyrchion a gwasanaethau isel eu carbon a gwelir cynnydd mewn rheoleiddio carbon mewn marchnadoedd allweddol. Mae perfformiad amgylcheddol yn datblygu'n ofyniad ffurfiol yn y prosesau o ennill contract gyda chontractau'n cael eu dyfarnu ar faterion megis effeithlonrwydd ynni a charbon.

Mae ôl troed carbon y sector TGCh ei hun ar hyn o bryd yn cyfrif am tua 2% o allyriadau fyd eang a gallai hyn godi'n sylweddol yn ôl adroddiad 'GeSI SMART 2020', tra'n galluogi sectorau eraill i ostwng ei hanghenion ynni. Er bod cynnydd yn ein defnydd o egni wrth gyflenwi gwasanaethau newydd a chyflymach, rydyn ni wedi gosod targed i ostwng ein defnydd net o ynni 3% mewn termau real y flwyddyn nesaf

Helpu cwsmeriaid i dorri CO_2

Eleni, rydyn ni wedi canolbwyntio ar ddeall ymhellach oblygiadau masnachol y newid i economi isel ei garbon drwy ystyried yr hyn fydd yn ei olygu i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau yn y tymor byr, canolig a hirdymor.

Allyriadau cyfwerth CO_2 (CO_2e) BT yn fyd eang



Rydyn ni eisoes yn cynnig cynnyrch a gwasanaethau i helpu cwsmeriaid weithredu'n fwy cynaladwy drwy wella effeithlonrwydd ynni a hybu cynhyrchiant. Yn gyfredol, mae'r galw mwyaf am atebion cynaladwy yn dod oddi wrth gwsmeriaid corfforaethol mawr a chwsmeriaid y sector cyhoeddus. Mae Gwasanaethau BT Global yn cynorthwyo'r cwsmeriaid hyn drwy wasanaethau'n cynnwys cynadledda, gweithio ystwyth a rheoli gwasanaeth maes awtomataidd. Mae ein Hymarfer Cynaladwyedd (Sustainability Practice) yn helpu cwsmeriaid mawr fesur eu hôl traed carbon a chanfod dulliau o ostwng eu defnydd o ynni a'u costau gweithredu.

Rydyn ni'n datblygu rhwydweithiau a chanolfannau data ynni isel a helpu cwsmeriaid i wella effeithlonrwydd eu defnydd o ynni yn eu canolfannau data presennol. Mae ein gwasanaeth rhith-ganolfan ddata yn darparu gwasanaethau cyfrifiadura hyblyg, ar gais, a all ostwng costau hyd at 40%, lleihau faint o ofod sydd ei angen a gostwng y defnydd o ynni ac allyriadau CO_2 .

Mae ein hymchwil (yn seiliedig ar ein profiadau ein hunain a phrofiadau ein cwsmeriaid) yn awgrymu y gellid osgoi hyd at 1.2 tunnell fetrig o allyriadau CO_2 bob blwyddyn am bob cyflogai sy'n gweithio o'i gartref/chartref. Gall datrysiad ein Field Force Automation (yn darparu gwybodaeth amser real a threfnu gwaith deinamig i bobl sy ar grwydr) ostwng teithiau cerbyd ac allyriadau CO_2 yn sgil hynny o hyd at 20%.

Sylwadau gan Banel Arweinyddiaeth BT

2009 oedd blwyddyn y gynhadledd siomedig ar yr hinsawdd yn Copenhagen a'r adwaith yn erbyn gwyddoniaeth hinsawdd. Wrth edrych tu hwnt i ormodiaeth y cyfryngau, mae'r egwyddorion gwyddonol yn dal yr un mor gadarn ac, yn wir, maen nhw wedi tyfu'n fwy difrifol ers adroddiad diwethaf yr IPCC yn 2007.

Ym maes polisïau, fe gynhyrchodd yr arweiniad i Gopenhagen nifer digynsail o ymrwymiadau cenedlaethol, gan gynnwys yn arbennig rai oddi wrth yr economïau mawr sydd ar gynnydd. Ond dydi'r rhain ddim yn ddigon ac mae'r llwybr tuag at fargen fyd eang yn parhau'n ddryslyd. Mewn sefyllfa felly, mae'r byd angen i'r sector breifat gydio yn yr awenau ac mae cwmnïau fel BT yn gwneud hynny, gan osod targedau heriol, dyfeisio strategaethau i gwrdd a'r targedau hynny, ac yna gweithredu i gyflawni arbedion carbon.

Daw llawer ateb carbon isel o gyfeiriad y diwydiant TG, ac mae BT yn gwneud cyfraniad pwysig drwy ei weithgaredd Ymchwil a Datblygu. Rhaid i BT hefyd weithio'n agos â ffurfwyr polisi i sicrhau bod y cymhellion a'r sefydliadau priodol yn cael eu sefydlu i wireddu 'twf gwyrdd' dros y degawd nesaf.

Wedi'i gynllunio'n gynaladwy

Mae offer a hyfforddiant ar gyfer ein timoedd cynnyrch yn ein helpu i ymgorffori meddylfryd carbon isel yn ein cynlluniau a'n datblygiadau. Rydyn ni'n datblygu methodoleg cyfrifo ôl troed carbon ar gyfer ein datrysiadau cyfathrebu. Mae hyn yn sialens gan fod ein hatebion yn gyfuniad o gynnyrch, gwasanaethau a rhwydweithiau ffisegol. Mae angen i ni hefyd gynnwys darpariaeth ac effeithiau cynnal a chadw. Byddwn yn rhannu'r hyn a ddysgwyd gennym i helpu eraill fel rhan o waith datblygu safonau rhyngwladol newydd.

Mae ein timoedd cynnyrch hefyd yn chwilio am gynhyrchion is eu heffaith ar yr amgylchedd ac yn gweithio gyda chyrff diwydiannol i godi safonau ar draws ein cadwyn gyflenwi fyd eang. Mae hyn yn help i wella'r defnydd o ynni yn ein hamrediad o nwyddau i ddefnyddwyr, gan gynnwys ein ffonau, Home Hub (llwybrydd rhyngrwyd diwifr) a bocs BT Vision sy'n 12% mwy effeithlon yn ei ddefnydd o ynni na'r fersiwn blaenorol. (Gweler tudalen 9)

12% yn fwy ynni effeithlon

Bocs BT Vision

Yn defnyddio ynni'n fwy effeithlon na'r fersiwn blaenorol

Lleihau ein hôl troed ein hunain

Rydyn ni wedi gosod un o'r targedau gostwng allyriadau corfforaethol mwyaf heriol yn y byd i helpu i drawsnewid BT yn fusnes sy'n llai carbon arddwys (intensif). Erbyn 2020, ein nod yw torri arddwysedd carbon ein busnes byd eang i fod yn 80% o'r hyn oedd yn 1997 (mae arddwysedd carbon yn cymharu allyriadau carbon deuocsid â pherfformiad ariannol). Mae'r targed hwn yn unol ag argymhellion Panel Rhynglywodraethol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) ar gyfer gwledydd datblygedig. Eisoes, rydyn ni wedi gostwng arddwysedd carbon 54% ers 1997 drwy archwilio'r defnydd o ynni, gwella effeithlonrwydd y defnydd o ynni yn ein swyddfeydd, ein rhwydwaith a'n canolfannau data, adeiladu trydan adnewyddadwy pwrpasol, newid i ffynonellau trydan isel eu carbon a mabwysiadu arferion gweithio o bell.

Cafwyd cynnydd da ond rydyn ni'n cydnabod bod rhagor i'w wneud i ddod o hyd i ddulliau mwy cost effeithiol o ostwng ein defnydd o ynni ac allyriadau. Er enghraifft, rydyn ni'n arwain y prosiect corfforaethol mwyaf y DU ar ynni gwynt tu allan i'r sector preifat, gyda'r nod o gynhyrchu hyd at 25% o'n defnydd o drydan yn y DU erbyn 2016. Cafwyd caniatâd cynllunio, yn amodol ar ddatrys mater technegol gyda maes awyr lleol, ar gyfer ein safle cyntaf gyda phum tyrbin gwynt ym mis Chwefror 2010. Darllenwch am ein cynlluniau a'r modd yr ydyn ni'n cysylltu â chymunedau ger darpar ffermydd gwynt ar **www.bt.com/betterworld**. Erbyn hyn, mae system ynni solar ein pencadlys yng Ngogledd America, yn El Segundo, Califfornia, yn cynhyrchu 15-20% o'i ddefnydd o ynni, yn gostwng fwy na 300 tunnell fetrig o allyriadau carbon bob blwyddyn.

Rydyn am i bawb yn ein busnes i'n helpu. Ein nod yw cael 20% o'n gweithlu i weithio ar weithgareddau newid yn yr hinsawdd erbyn 2010 ac eisoes mae dros 7,000 yn cefnogi ein gweithrediadau. Rydyn ni'n canolbwyntio ar gynnwys a symbylu gweithlu i ostwng CO_2 drwy ein hymgyrch arbed ynni a'n rhwydwaith o Glybiau Carbon.

Technoleg ar waith
Safbwynt y cwsmer

Mae gweithio hyblyg yn talu ar ei ganfed i Beachcroft LLP, cwmni cyfreithiol masnachol, drwy gynhyrchiant uwch a chostau is. Cwtogodd Beachcroft 25% ar ofod swyddfa mewn un lleoliad. Eu nod yw cael cyfanswm gostyngiad o 50% gyda thoriadau tebyg mewn lleoliadau eraill. Mae lleihau'r teithio wrth weithio o'u cartref hefyd yn gwella'r balans rhwng bywyd a gwaith i weithwyr cyflogedig.

Fel un a fabwysiadodd y cynllun yn gynnar, does gan Christy Farrer, Rheolwraig Prosiect Strategol yn Beachcroft, ddim amheuaeth am y manteision. "Nawr dw i'n gweithio gartref dri diwrnod yr wythnos," meddai, "dwi nid yn unig yn arbed arian ar deithio ond hefyd dw i'n gweithio yn ystod yr amser ron i'n arfer ei dreulio'n teithio. Felly mae pawb ar ei ennill."

Newid yn yr hinsawdd
Safbwynt BT

Chris Tuppen
Prif Swyddog Cynaladwyedd BT

Llynedd, digwyddodd nifer o bethau a arweiniodd pobl i gwestiynu'r angen i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd. Gaeaf oer yn 2010, yr e-byst a ddatgelwyd o Brifysgol East Anglia, camddatganiad yr IPCC ar gyflymder y dadlaith yn rhewlifoedd yr Himalaya ac wrth gwrs, canlyniad siomedig uwchgynhadledd Copenhagen ar y newid yn yr hinsawdd.

Ond mae'r wyddoniaeth sylfaenol yn ddiymwad bod CO_2 yn cynhesu'r blaned a bod llosgi tanwydd ffosil yn cynyddu CO_2 yn yr atmosffer.

Yn y pen draw, bydd y sefydliad gwleidyddol ar draws y byd yn ymateb i realiti'r sefyllfa. Er nad oes gonsensws eto ar bwy sydd yn mynd i wneud beth ac erbyn pryd, roedd y neges o Copenhagen yn glir: mae pob gwlad yn derbyn bod angen gweithredu ac yn anochel bydd rheoleiddio, ymyrraeth ariannol a marchnadoedd newydd a chynhyrchion isel eu carbon.

Credwn y bydd hyn yn golygu twf refeniw yn y diwydiant TG yn yr hirdymor. Rydyn ni'n paratoi ar gyfer hyn drwy ddefnyddio mesuryddion smart a threialu gridiau smart ac ystyried cysyniad holistaidd o gymunedau smart sy'n dod ag ystod llawn o dechnolegau smart ar ei gilydd.

Adrodd yn ôl ar faterion carbon

Rydyn ni wedi rhoi gwybod am ein hallyriadau carbon ers 1992 ac wedi dilyn y Protocol Nwyon Tŷ Gwydr a chanllawiau Llywodraeth y DU.

Eleni, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau riportio gwirfoddol newydd ar gyfer cwmnïau. Mae'r rhain yn wahanol i'r canllawiau blaenorol. Maen nhw nawr yn argymell y dylid riportio allyriadau carbon o drydan a brynwyd gydag allyriadau sero neu allyriadau isel eu carbon yn ôl yr arddwysedd 'cyfartaledd grid'. Mae hyn yn diddymu unrhyw gymhelliad i ddefnyddwyr ynni mawr megis BT i brynu trydan adnewyddadwy. Teimlwn fod hyn yn gam at yn ôl, yn enwedig o gofio am y targedau heriol sydd gan y DU ar gyfer cynyddu'i swm o drydan adnewyddadwy dros y degawd nesaf. Cytunodd y llywodraeth i adolygu'r argymhelliad hwn erbyn Rhagfyr 2010.

A dibynnu ar ganlyniad yr arolwg, efallai bydd angen i ni ail ystyried ein dull o fynd ati i brynu ynni, adrodd ar garbon a'n targedau CO_2.

Ar gyfer bod yn hollol dryloyw, mae ein cyfrifon carbon eleni yn dangos ein pryniannau 'cyfartaledd grid' ynghyd â'r arbedion carbon o ganlyniad i brynu trydan isel ei garbon. Cewch weld ein holl gyfrifon carbon ar **www.bt.com/betterworld**

Economi isel ei garbon
Safbwynt allanol

Steve Howard
Prif Weithredwr, Y Grŵp Hinsawdd

Yn 2008, rhyddhaodd y Grŵp Hinsawdd a Menter Global e-Sustainability adroddiad 'SMART 2020: Enabling the Low Carbon Economy in the Information Age'. Roedd hwn yn dangos y gallai defnyddio TGCh dorri allyriadau yn fyd eang 15% erbyn 2020 drwy wneud i sectorau eraill ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon.

Sut gall diwydiant TGCh fanteisio ar y cyfle hwn? Mae nifer o gwmnïau yn dechrau ystyried eu hôl troed uniongyrchol eu hunain, ac mae sawl un yn datblygu cynhyrchion a gwasanaethau gan ddefnyddio'u harbenigedd mewn rhwydweithio neu gyfathrebu.

Unwaith yr ydym yn deall aneffeithlonrwydd, gellir defnyddio data i ddarparu ystod llawn o gynhyrchion a gwasanaethau sy'n arbed ynni ac arian i gwsmeriaid a busnesau. Mae hyn eisoes ar y gweill, gyda rheoli a dadansoddi data yn tyfu bron ddwywaith cyn gyflymed â gweddill y diwydiant TGCh ar 10% y flwyddyn.

Yn ogystal â darparu gwasanaethau megis dadansoddi data, telegynadledda neu fideo-gynadledda, dylai'r diwydiant TGCh weithio i ddatblygu'r galw am effeithlonrwydd ynni a chynorthwyo ymdrechion y llywodraeth i annog pobl i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon a chasglu data ar ddefnyddio ynni.

Safonau cytûn sy'n galluogi twf yn y farchnad cynnyrch effeithlonrwydd ynni sy'n caniatáu cyfathrebu peiriant i beiriant a grid smart, prosiectau peilot sy'n profi technolegau newydd a hen ddulliau derbyniol sy'n mesur effaith gwasanaethau TGCh ar allyriadau yn gywir. Bydd hyn angen cydweithio digynsail yn y diwydiant, ar draws y diwydiant ac ar draws pob sector yn y diwydiant.

Bydd y diwydiant TGCh, defnyddwyr, busnesau a'r amgylchedd yn elwa o ddefnydd effeithlon o ynni. Bydd y cwmnïau sy'n dewis arloesi yn arwain y byd i mewn i'r degawd nesaf a thu hwnt.

Potensial y dechnoleg
Cip i'r dyfodol

Mae'n nos o aeaf a rydych chi wedi treulio diwrnod yn y swyddfa. Rydych yn teipio "mynd adre" ar y cyfrifiadur. Mae hyn yn anfon neges i'r 'pŵl' cerbydau, rhoi gwybod i'ch cartref eich bod ar fin gadael a bydd eich galwadau'n cael eu trosglwyddo'n syth i'r ffôn symudol.

Rydych yn codi oddi wrth eich desg a bydd y sgrin yn diffodd. Does gan neb gyfrifiadur bellach – caiff y cyfrifiadura dwys ei wneud drwy fega-ganolfannau data uwch-effeithiol sydd wedi eu hadeiladu ger adnoddau ynni adnewyddol. Wrth i'ch sgrin ddiffodd mae'r ganolfan ddata'n ailddosrannu'r gofod ar y gweinydd i ddefnyddiwr arall.

Wrth gerdded lawr y coridor tua'r maes parcio, mae'r goleuadau LED yn cynnau o'ch blaen a diffodd o'ch ôl – rydych yn cerdded mewn cylch o olau. Daw cydweithiwr o'r "pŵl" ceir sydd wedi ei hysbysu eich bod ar fin gadael. Rydych hi'n camu i gar trydan. Mae'n gerbyd ffasiynol a chysurus – nid rhywbeth sy'n debyg i gert y dyn llaeth.

Wrth yrru tuag adref, mae eich ffôn symudol mewn cyswllt cyson gyda'ch cartref. Mae eich tŷ wedi ei insiwleiddio'n dda: mae haen o gelloedd ffotofoltaidd ac mae'r parwydydd yn amsugno gwres pan fydd hi'n dwym a'i ryddhau pan fydd hi'n oeri. Mae'r tŷ hwn yn darllen y tywydd, mae'n gwybod pryd byddwch chi'n cyrraedd, faint o wres solar mae wedi ei dderbyn yn ystod y dydd, faint o drydan mae wedi ei gynhyrchu a faint werthwyd ymlaen i'r grid. Mae'n gwybod pa stafelloedd fyddwch chi'n ddefnyddio, felly mae'n eu paratoi cyn i chi gyrraedd. Mae system wresogi'r gymdogaeth sy'n gwasanaethu'ch cartref yn cael ei bwydo i'r tŷ drwy anferth o bwmp gwres yng nghrombil y ddaear.

Rydych chi'n cyrraedd gartref ar ôl rhoi lifft i'ch cydweithiwr ac yna'n plygio'r car i gael ei ailwefru yn eich garej. Ar ôl swper, rydych yn cael eich sgwrs wythnosol dros gyswllt fideo gyda'ch rhieni, sy'n fregus ond yn dal i fyw yn eu tŷ eu hunain. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, fe gafodd gofal iechyd a chymdeithasol ei weddnewid. Mae synwyryddion yn cadw golwg ar weithgareddau pobl ac ar gyflwr eu hiechyd. Cynhelir profion cyson drwy ddefnyddio diagnosteg o hirbell. Caiff problemau iechyd eu canfod lawer ynghynt.

Wrth i chi droi am y gwely, bydd golau a gwres y tŷ'n diffodd o'ch ôl.

Chris Tuppen
Prif Swyddog Cynaladwyedd BT

Sgiliau ar gyfer BT cynaladwy

Mae creu byd o gyswllt, isel ei garbon, lle mae technoleg yn helpu i ddarparu bywyd o well ansawdd i bawb, yn sialens enfawr. Mae angen i ni arloesi, cynorthwyo ein pobl i ddatblygu sgiliau newydd ac ymgysylltu â phawb o fewn BT i ddilyn ein nodau cynaladwy.

Dim ond drwy ganolbwyntio ar sgiliau y gallwn ni gystadlu'n llwyddiannus ar raddfa fyd eang, bod yn ymwybodol o'r newid technolegol cyflym yn ein sector a helpu i daclo sialensiau mawr megis newid yn yr hinsawdd a chynhwysiad cymdeithasol.

Rydyn ni'n buddsoddi mewn hyfforddiant a gwirfoddoli i roi ystod eang o sgiliau i bobl ar bob lefel o'r cwmni, ehangu eu gorwelion a'u hysbrydoli i wneud gwahaniaeth i'n busnes a'r cymunedau yr ydyn ni'n gweithio ynddyn nhw. Mae ein hymrwymiad i weithio hyblyg yn ein helpu i gyflwyno talent o ffynonellau newydd gyda safbwyntiau amrywiol sy'n ychwanegu gwerth at ein busnes.

Eleni, mae gwelliant yn ein heffeithlonrwydd wedi'n galluogi i leihau cyfanswm ein hadnodd llafur (cyflogai, staff asiantaeth a chontractwyr) o tua 20,000. Mae gennym hanes llwyddiannus o adleoli ac ailhyfforddi pobl drwy eu helpu i gaffael sgiliau newydd a dod o hyd i swyddi o fewn meysydd twf BT. Gydag ailhyfforddiant a chefnogaeth mae tua 5,000 o bobl wedi dod o hyd i rolau newydd o fewn y busnes.

Sgiliau ar gyfer y dyfodol

Er mwyn cyflawni'n nodau cynaladwyedd a manteisio i'r eithaf ar fanteision technoleg, mae rhaid i'n pobl ddeall pam fod cynaladwyedd yn bwysig i BT a rhoi'r sgiliau iddyn nhw er mwyn gwneud gwahaniaeth.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe ddechreuon ni nodi'r sgiliau sydd eu hangen ar ein pobl i integreiddio dewisiadau cynaladwy yn eu datblygiad a'u penderfyniadau busnes. Fe brofon ni ddealltwriaeth ein pobl o'r tri mater sylfaenol sef 'economeg, yr amgylchedd a lles cymdeithasol' drwy weithdai a thrafodaethau gyda thrawstoriad o'n gweithwyr. Darparodd ein Panel Arweinyddiaeth allanol gipolwg ar y sialensiau i'w hwynebu a'r dulliau sefydliadau blaengar eraill o fynd ati.

Cynorthwyodd y gwaith hwn ni i ddeall agweddau cyfredol, egluro ymddygiadau sydd angen i weithwyr eu mabwysiadu a nodi anghenion hyfforddiant a datblygiad. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn gweithio gydag ysgolion busnes, grwpiau ymgynghorol a darparwyr arbenigol i droi'r gwaith hwn yn rhaglen datblygu gweithwyr.

Rydyn ni'n nabod ein cynnyrch ac mae gan dimoedd marchnata rôl allweddol i'w chwarae i'n helpu i ddatblygu atebion mwy cynaladwy ar gyfer cwsmeriaid. Rydyn ni wedi datblygu pecyn cymorth i sicrhau bod meini prawf cynaladwy yn cael eu hymgorffori yng nghynllun y cynnyrch ac i amlygu cynhyrchion sydd wedi gwneud gwahaniaeth i gwsmeriaid (a refeniw) i'w hysbrydoli. Bydd yr arfau hyn hefyd yn helpu ein timoedd marchnata i ddeall sut mae ein hatebion yn cefnogi cynaladwyedd a chyfleu hyn i'n cwsmeriaid.

Talent 'Yfory'
Safbwynt allanol

Tony Manwaring
Prif Weithredwr 'Tomorrow's Company'

Mae canfyddiadau o'r hyn yw gwerth a sut caiff ei greu yn newid yn sylfaenol, yn newid ein syniad o 'dalent'. Yn y dyfodol bydd penderfyniadau strategol yn ystyried materion amgylcheddol a chymdeithasol a chyfleoedd yn ogystal â rheidrwydd economaidd (yr hyn yr ydyn ni'n ei alw'n gyd-destun triphlyg).

Mae hyn yn gofyn i gwmnïau newid eu meddylfryd yn ogystal â'u harferion – bydd gweithgareddau newydd megis datblygu cynhyrchion sydd yn wir gynaladwy a llwyddiannus yn methu heblaw bod gweithlu yn deall y syniad tu ôl iddyn nhw, ac ni fydd syniadau ar eu pen eu hunain yn creu gwerth heb y prosesau sydd eu hangen i'w gwireddu.

Mae BT yn deall hyn ac am ddefnyddio TG i ganfod dulliau arloesol i ddod o hyd i dalent a newid meddylfryd. Mae'r cwmni hefyd yn sylweddoli ei fod yn frand eiconig Prydeinig – gyda chyfrifoldebau a chyfleoedd i gynorthwyo trawsnewid y DU yn economi digidol - yn ogystal â busnes byd eang sydd angen y sgiliau i gynorthwyo gwahanol fathau o gwsmeriaid ar draws ffiniau diwylliannol a chorfforaethol.

Ymddiriedaeth a pharch at ei bobl ac amrywiaeth y talent y maen nhw'n ei gynrychioli sydd wrth wraidd y dull o fynd ati. Mae hyn wedi newid beth y mae'n ei olygu i weithio i BT, yn cyflwyno opsiynau gweithio'n hyblyg a mwy o gyfleoedd ar gyfer yr holl weithlu yn ogystal ag ar gyfer grwpiau megis pobl anabl a gofalwyr. Mae ffocws y cwmni ar wirfoddoli a chynnwys pobl yn helpu i greu'r feddylfryd newydd hollbwysig. Os bydd yn llwyddiannus, hwn fydd ased mwyaf BT wrth i'r cwmni addasu ar gyfer byd mwy cysylltiedig. Ceir adroddiad Tomorrow's Global Talent ar **www.forceforgood.com**

Fe integreiddion ni gynaladwyedd i mewn i'n rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a thalent eleni, i gyflwyno'r wybodaeth gywir, y sgiliau a'r ymddygiad i'n darpar arweinwyr er mwyn i'r busnes lwyddo drwy gyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol. Hefyd, fe wnaethon ni atgoffa rheolwyr a thimoedd o bwysigrwydd ein hegwyddorion busnes – 'The Way We Work'. Fe adolygon ni a diweddaru ein proses rheoli perfformiad er mwyn sicrhau ein bod yn canfod ac yn gwobrwyo'r ymddygiad cywir.

Hyfforddiant i wella sgiliau

Mae hyfforddiant yn helpu ein pobl i beidio â bod ar ei hôl hi gyda'r dechnoleg newydd. Er enghraifft, o ganlyniad i'n rhaglen 'Right First Time' a buddsoddiadau yn ein rhwydwaith, mae dibynadwyedd wedi gwella a does dim angen cymaint o ymweliadau gan ein peirianwyr i drwsio diffygion. Rydyn ni'n ail hyfforddi ein peirianwyr yn y sgiliau fydd eu hangen arnon ni, bydd rhaid i ni ddatblygu'n band llydan ffibr-optig goruwch-gyflym.

Rydyn ni'n cydnabod bod sgiliau yn bwysig ar bob lefel y cwmni. Eleni, bydd dros 5,000 o weithwyr yn cymryd mantais o ddysgu achredig neu dystysgrifau prentisiaeth. Mae ein rhaglen brentisiaeth yn helpu i roi'r arfau angenrheidiol i bobl ifanc ffynnu yr oes arloesol. Yn gyfredol, mae gennym 713 o brentisiaid yn gweithio ar draws BT ac yn ystod 2011 rydyn ni'n cynllunio i recriwtio mwy na 200 yn ychwanegol.

Rydyn ni'n cydweithio gyda chyflogwyr eraill a Busnes yn y Gymuned (BITC) ar 'Work Inspiration', menter newydd fydd yn sicrhau gwell lleoliadau gwaith i thua 3,000 o bobl ifanc gyda BT. Bydd hyn yn rhoi cipolwg iddyn nhw ar fyd gwaith a chynorthwyo'r cyfranogwyr i benderfynu pa yrfa yr hoffen nhw ei ddilyn

5,000

Hyfforddiant

Y nifer o bobl BT sy'n manteisio ar ddysgu achredig

Effaith gweithio hyblyg

Mae'n datrysiadau gweithio ystwyth yn rhoi mynediad i weithwyr i'r un wybodaeth, systemau a chymwysiadau gartref ag yn y swyddfa ac ar grwydr. Mae mwy na 9,600 o bobl yn gweithio o'u cartrefi, yn osgoi cymudo a lleihau'r gofod swyddfa sydd angen arnon ni. Mae gweithio hyblyg yn helpu'r gweithwyr gyflawni gwell balans rhwng eu bywyd a'u gwaith ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd a chostau teithio. Yn ein profiad ni, ar gyfer swyddi sy'n gweddu i hynny, mae'n ysgogi pobl ac yn cynyddu eu ffocws a'u hymroddiad, gan wella cynhyrchiant. Mae hyn o help i BT ddenu a chadw cronfa fwy amrywiol o weithwyr cyflogedig gyda'r ystod eang o alluoedd a'r sgiliau gydol oes sydd eu hangen arnon ni. Mae hyn yn cynnwys gweithlu medrus sy'n gwerthfawrogi hyblygrwydd yn ogystal â phobl ag anableddau, gofalwyr a phobl hŷn sydd am ymestyn eu hoes gweithio.

Mae ein gweithlu yn cytuno bod manteision i weithio hyblyg. Ar ôl 22 mlynedd gyda BT ac 16 mlynedd yn ein canolfan alwadau yn yr Amwythig, mae Sandra Hannan, ymgynghorydd bilio ac ymholiadau, yn mwynhau'r tawelwch wrth weithio gartref. Meddai Sandra, "wrth hollti shifft, dw i'n cael amser yn ystod y dydd i wneud fy ngwaith tŷ a chwrdd â'n ffrindiau am ginio – ac yn golygu bod gen i a fy mhartner fwy o amser gyda'n gilydd gyda'r nos. Ar ôl chwe mis, dw i erioed wedi teimlo mor hapus ac mor iach – a theimlo mwy o gyswllt rhyngddo i a fy nghwsmeriaid. Mae BT yn graff iawn i gyflwyno gweithio o gartref ar gyfer ei ymgynghorwyr a chredaf mai dyma'r ffordd ymlaen."

Yn y cyfamser, roedd Steve Lewis ymgynghorydd atgyweirio yn awyddus i osgoi teithio ryw 40 munud nôl a blaen i'r gwaith bob dydd a threulio mwy o amser gyda'i ddau blentyn ifanc. Heddiw, mae Steve yn gweithio'r un faint o oriau ond dros wythnos o bedwar diwrnod, wedi'u hollti'n ddwy shifft yn y bore a gyda'r nos cynnar. Meddai, "dwi'n ffodus i gael swyddfa ar wahân yn fy ngardd fel y gallaf ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar fy ngwaith - mae fy mherfformiad wedi gwella ers i mi fod yn gweithio gartref."

Mae gweithio gartref yn golygu y gall Mandy Simpson, ymgynghorydd bilio ac ymholiadau ofalu am ei hwyres yn ystod y dydd, sy'n caniatáu i'w merch ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cyfnod mamolaeth. Yn ei geiriau ei hun, "roedd newid i weithio gartref yn un o'r pethau gorau i mi ei wneud yn BT."

Mae ein datrysiadau gweithio hyblyg yn galluogi cwsmeriaid i gael yr un manteision

Barn Panel Arweinyddiaeth BT

Bydd y trawsnewid i gymdeithas gynaladwy ac economi isel ei garbon angen newid sylfaenol yn ein meddylfryd ochr yn ochr â buddsoddiad yn y sgiliau priodol. Yr hyn sy'n allweddol yw gwerthfawrogi natur rhyngddisgyblaethol y 'sgilset' cynaladwy, yn cyfuno cymhwysedd technegol â galluoedd newydd i ysgogi ac ysbyrdoli budd-ddeiliaid mewnol ac allanol. Mae'n galonogol gweld BT yn dechrau ymgorffori cynaladwyedd i mewn i'r broses o wneud penderfyniadau, fel rhan o'i raglen datblygu talent.

Dyma gychwyn y daith tuag at fyd lle bydd pob cynnyrch newydd cyn cael ei lansio wedi'i asesu o ran ei gyfraniad cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol a lle mae cyfraniad gweithlu i gynaladwyedd hefyd yn golygu'r amser a dreuliwyd ar weithgareddau megis gwirfoddoli i achosion a ystyriwyd unwaith yn rhai anghynhyrchiol. Bydd angen data cadarn i brofi bod BT unwaith eto'n arwain drwy esiampl ac i asesu cyfraniad gwirfoddoli a mentrau eraill i berfformiad cynaladwyedd cyffredinol BT.

Y 10 Uchaf

Amrywiaeth

Gosodwyd ni yn y deg uchaf mewn pedwar allan o bum meincnod amrywiaeth pwysig yn ystod y tair blynedd diwethaf

Yn werth pob munud o'r amser

Rydyn ni'n ehangu'r dulliau y gall ein gweithlu gaffael sgiliau a phrofiadau newydd drwy ffocysu mwy ar wirfoddoli. Eleni, rydyn ni'n ehangu ein hen raglen wirfoddoli ac wedi ymrwymo i ganiatáu i'n pobl ar draws y byd wirfoddoli hyd at dri diwrnod y flwyddyn yn amser BT. Yn 2010, darparodd pobl BT dros 28,000 diwrnod o weithgaredd gwirfoddol yn y gymuned – gwaith, yn ein tyb ni, sy'n werth £9.4 miliwn.

Rydyn ni wedi datblygu portffolio eang o gyfleoedd gwirfoddoli sydd o ddiddordeb ac yn ysbrydoli'n gweithlu, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cefnogi amcanion cynaladwyedd a busnes ehangach BT, megis rhaglen beilot gydag UK Online i gynorthwyo ymdrechion i fynd i'r afael ag eithrio digidol. Rydyn ni hefyd yn trefnu digwyddiadau gwirfoddoli ar raddfa fawr fel y rhai a drefnir yn ystod Wythnos Wirfoddoli Llundain 2012, sydd wedi caniatáu i weithwyr gynorthwyo paratoadau ar gyfer Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, yn ogystal â telethonau codi arian ac apeliadau am arian ar gyfer trychinebau a gynhelir yn y DU. Gall gweithlu hefyd wirfoddoli gydag elusen o'u dewis eu hunain.

Mae gwirfoddoli yn rhan o'r broses datblygu gweithwyr, er lles BT a'n pobl. Mae gennym raglen secondiad elusennol sy'n galluogi gweithlu i dreulio cyfnodau hirach gyda phartneriaid elusennol allweddol. Mae elusennau yn elwa'n sylweddol o'r rhaglen hon tra'n datblygu sgiliau, symbyliad a hunan hyder gweithlu BT sydd wedi'u secondio. Mae llawer o'r gweithlu sydd wedi cwblhau'r rhaglen hon wedi ymestyn eu sgiliau ac, erbyn hyn, yn gymwys ar gyfer ystod ehangach o rolau o fewn BT.

£9.4m

Gwirfoddoli

Ein hamcangyfrif o werth dros 28,000 o ddyddiau gwirfoddoli eleni

Sgiliau'r dyfodol
Safbwynt BT

Caroline Waters
Cyfarwyddwraig Pobl a Pholisi BT

Mae sialensiau megis newid yn yr hinsawdd a chynhwysiad cymdeithasol yn gynyddol effeithio ar ein busnes ynghyd â'r angen i arloesi yn y farchnad. Yn y sefyllfa hon rhaid i ni gynnal busnes yn wahanol os ydyn ni am lwyddo. Mae angen cynnyrch arloesol arnon ni a chynllunwyr datrysiad sy'n cadw BT ar y blaen gan ddarparu gwasanaethau cyfathrebu cynaladwy'n amgylcheddol y gall pawb eu defnyddio.

Eleni, rydyn ni wedi canolbwyntio ar integreiddio ymddygiadau amgylcheddol a chymdeithasol gyfrifol i mewn i ddull gweithio ein pobl, i mewn i'n systemau rheoli perfformiad ac i'n rhaglenni datblygu arweinyddiaeth. Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn adeiladu ar hyn, gyda rhaglen datblygu gweithlu sy'n cynnwys darpar anghenion busnes a chymdeithas.

Rhaid i ni ystyried ffynonellau anghonfensiynol o dalent er mwyn sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r bobl orau ar gyfer yr amgylchedd busnes newydd hwn. Mae BT yn ymestyn allan i gymunedau newydd gan gynnwys y rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur megis gofalwyr ac egluro'r sgiliau sydd eu hangen arnon ni a'r opsiynau gweithio hyblyg rydyn ni'n eu cynnig ac i annog pobl wahanol i wneud cais am ein swyddi.

Mae angen i lywodraethau, diwydiant a'r system addysg gydweithio'n agos i sicrhau bod ysgolion yn deall y sgiliau y mae busnesau eu hangen gan weithlu'r dyfodol. Mae ein gwaith gyda chyflogwyr a Busnes yn y Gymuned yn y rhaglen 'Work Inspiration' yn enghraifft wych o sut gall hyn ysbrydoli pobl ifanc am waith a'r posibiliadau am fath newydd o fusnes.

Ffeil ffeithiau busnes cyfrifol

Rydyn ni'n uchelgeisiol am yr hyn gallwn ni ei gyflawni ar gyfer cymunedau a'r amgylchedd. Ond gwyddom mai seiliau cadarn sy'n sicrhau llwyddiant. Rydyn ni wedi ymrwymo i weithredu'n gyfrifol a chynaladwy ym mhob maes o'n busnes, i gynorthwyo ein pobl, ein cwsmeriaid a'r cymunedau rydyn ni'n gweithio ynddyn nhw.

Isod, ceir cipolwg ar ein dull o fynd ati. Gallwch ddarllen rhagor amdano yn ein hadroddiad llawn ar-lein ar **www.bt.com/betterworld**

Ein gwerthoedd

Mae Datganiad ein Harferion Busnes, 'The Way We Work', sy'n bodoli ers dros ddegawd, yn diffinio ein disgwyliadau o'n cwsmeriaid, ein cyflogwyr, ein gweithwyr, ein budd-ddeiliaid, ein partneriaid, ein cyflenwyr a chymunedau lleol a'n hymrwymiad iddyn nhw. Mae ein Pwyllgor Llywio Moeseg yn cwrdd bob dau fis a'r cadeirydd yw Ysgrifennydd y Cwmni. Eleni, ehangwyd ein Dangosydd Perfformiad Allweddol er mwyn helpu mesur effaith ein hyfforddiant a'n gweithgareddau moeseg ar godi ymwybyddiaeth gweithlu o'n polisïau ar faterion megis llwgrwobrwyo a llygru a derbyn a chynnig lletygarwch.

Gwasanaeth i Gwsmeriaid

Yn 2010 sicrhawyd cynnydd o 10.5% yn y sgoriau mewnol rydyn ni'n eu defnyddio i fesur gwasanaeth i gwsmeriaid. Mae hyn yn cymharu â gwelliant o 9% yn 2008 a 17% yn 2009. Mae'r mesuriadau'n gronnus, felly, mae'r canlyniadau'n dangos bod gwir gynnydd yn cael ei wneud.

Preifatrwydd

Mae ein polisi cynhwysfawr ar breifatrwydd ar gael ar ein gwefan. Mae'n holl rheolwyr a'r bobl i gyd sydd â mynediad i ddata personol gweithlu neu gwsmeriaid yn mynychu cwrs hyfforddi diogelu data unwaith bob tair blynedd. Yn 2010 parhawyd â'n hymgyrch i godi ymwybyddiaeth gweithlu o 'ddiogelu gwybodaeth', a helpu i sicrhau bod ein pobl yn deall pa mor hanfodol yw hi i ddiogelu'r data personol sydd yn ein meddiant.

Gwasanaethau cynhwysol

Bu BT yn darparu help a gwasanaethau penodol ar gyfer pobl hŷn a chwsmeriaid anabl ers 1984. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, awdio neu laith Arwyddo Prydain. Ein gwefan gynhwysol oedd y cwmni FTSE 100 cyntaf i ddal achrediad 'See it Right'.

Gwytnwch sifil

Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i gynnal Seilwaith Cenedlaethol Critigol y DU (Critical National Infrastructure). Er enghraifft, achosodd stormydd trwm yn ystod 2009 ddifrod mawr i gysylltiadau ffôn, band llydan, darlledu a dolenni cyswllt eraill yng Ngogledd Orllewin Lloegr, gan dorri gwasanaethau i bron 4,000 o gwsmeriaid. O fewn 12 awr, roedd gwasanaethau ffôn wedi'u hadfer i'r mwyafrif o gwsmeriaid ac roedd y rhan fwyaf o linellau band llydan yn gweithio eto o fewn 36 awr.

Amrywiaeth

Am y drydedd flwyddyn o'r bron rydyn ni wedi cyflawni ein targed o fod yn y deg uchaf mewn pedwar o'r pum meincnod pwysig ar gyfer amrywiaeth.

Pensiynau

Cytunwyd gyda'r Ymddiriedolwr ar 31 Ragfyr, 2008, ar brisiad tair blynyddol o werth Cynllun Pensiwn BT a'r cynllun adfer cysylltiedig. Ar y sail gochelgar hwn o brisio'r gwerth, y diffyg ariannol yw £9 biliwn. Mae BT a'r Ymddiriedolwr wedi cytuno ar gynllun adfer 17 mlynedd gyda thaliad o £525 miliwn am y tair blynedd cyntaf. Y taliad yn ystod blwyddyn ariannol 2013 fydd £583 miliwn, yn cynyddu 3% y flwyddyn ar ôl hynny.

Iechyd a Diogelwch

Digwyddodd 0.209 o anafiadau colli amser gwaith (LTI) am bob 100,000 o oriau gwaith o'i gymharu â 0.160 y flwyddyn flaenorol a tharged o 0.157. Digwyddodd y cynnydd mewn LTI yn bennaf oherwydd llithro, baglu neu gwympo yn ystod gaeaf garw'r DU. Ni chafwyd cynnydd yn y costau cysylltiedig gan fod y rhain yn anafiadau cymharol fân sydd ddim yn golygu llawer o amser i ffwrdd o'r gwaith a bu gostyngiad yn nifer yr anafiadau mwy difrifol a chostus. Cyfradd absenoldebau oherwydd salwch (SAR) oedd colli 2.46% dyddiau calendr, o'i gymharu â 2.17% y flwyddyn flaenorol, yn erbyn targed o 1.9%. Bu cynnydd yn ein costau SAR a'r costau cysylltiedig oherwydd nifer uchel o waeledd ym ymwneud â 'r ffliw a'r annwyd a iechyd meddwl.

Buddsoddi yn y gymdeithas

Eleni, rydyn ni'n buddsoddi arian, amser a chymorth mewn nwyddau gwerth £26.4 miliwn yn ein rhaglenni cymunedol, gan gwrdd â'n hymrwymiad i fuddsoddi o leiaf 1% o elw cyn treth y grŵp. Yn 2010 cyflwynwyd dau gategori buddsoddi newydd: cymorth ar gyfer newid yn yr hinsawdd a chynaladwyedd a pheth gweithgaredd gwirfoddoli yn y sector cyhoeddus. Mae'r categorïau newydd hyn yn cynrychioli 9.5% o fuddsoddiad y flwyddyn hon.

Cymorth i elusennau

Helpodd telethonau ac apeliadau am arian ar gyfer trychinebau a gefnogwyd gan BT i godi £150 miliwn ar gyfer ein partneriaid elusennol – Plant Mewn Angen, apeliadau y Pwyllgor Trychinebau Argyfwng (DEC) ar gyfer Asia a Haiti a Sports Relief. Prosesodd ein llwyfan eDonate dros 370,000 o rodd-daliadau ar gyfer apêl daeargryn Haiti, gan gasglu mwy na £21 miliwn yn ychwanegol i'r £3.5 miliwn a gymerwyd drwy ein system rhoddion ffôn awtomataidd. Cyfrannodd ein gweithlu £2.5 miliwn i elusennau o'u dewis a rhoddodd y cwmni £1 miliwn yn ychwanegol.

Treftadaeth
Treftadaeth Mae gwefan Connected Earth (www.connected-earth.com) ac amgueddfeydd partner ar draws y DU yn cadw arteffactau, dogfennau, delweddau a ffilmiau hanesyddol telathrebu o bwys cenedlaethol. Roedd tua 77,000 wedi lawrlwytho adnoddau addysgu safonol y Cwricwlwm Cenedlaethol am ddim yn 2010. Mae Archifau BT yn cadw gwybodaeth hanesyddol British Telecommunications plc a'i ragflaenwyr o gyfnod cychwyniad y telegraff trydan yn nhri degau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hyd at y presennol.

Safonau cadwyn gyflenwi
Mae gennym safonau llafur ac amgylcheddol manwl ar gyfer cyflenwyr ac rydyn ni'n monitro'r cydymffurfio drwy ddefnyddio holiaduron ac asesiadau ar y safle. Yn 2010, cwblhaodd 180 o gyflenwyr ein holiaduron hunan asesu ac fe gynhalion ni 32 asesiad safle. Rydyn ni'n cydweithio gyda 270 o gyflenwyr i wella safonau eu hamgylchedd a gyda 261 ar eu safonau llafur.

Lleihau ein carbon
Lleihau ein carbon Hyd yn hyn, rydyn ni wedi lleihau o 54% arddwysedd carbon ein busnes yn fyd eang, gan gynnwys prynu trydan sero ac isel ei garbon, o'i gymharu â gwaelodlin 1997. Yn y DU mae'n holl allyriadau CO2 wedi gostwng 7% yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac o 59% o'n blwyddyn sail, 1997.

Lleihau ein defnydd o ynni
Gwnaethon ni gynnydd sylweddol yn erbyn ein targed i arbed 75,000 tunnell fetrig o CO_2 erbyn mis Mawrth 2011. Mae gweithgareddau o gwmpas y grŵp i symud offer diangen o gyfnewidfeydd, gwneud defnydd mwy effeithiol o systemau gwresogi, manteisio ar fwy o ofod swyddfa a dadgomisynu gweinyddion wedi talu ar ei ganfed, gan leihau CO_2 o 41,800 tunnell fetrig.

Cludiant
Drwy ostwng cyfradd diffygion yn ein rhwydwaith fel rhan o'n rhaglenni gwasanaeth i gwsmeriaid, rydyn ni wedi gallu sicrhau gostyngiad sylweddol yn yr allyriadau CO_2 sy'n gysylltiedig ag ymweliadau peirianwyr. Gostyngodd milltiroedd a deithiodd ein cerbydau 15% ac allyriadau CO_2 cysylltiedig â hynny yn gostwng12% yn ystod y flwyddyn. Mae'r gostyngiad hwn hefyd yn adlewyrchu ein gweithgareddau i hyfforddi pobl yn nhechnegau gyrru gan ddefnyddio tanwydd effeithlon a gwell trefn gweithio, yn lleihau siwrneiau seithug a gostwng ffactorau llwyth ein cerbydau - er enghraifft drwy ddefnyddio offer ysgafnach.

Teithio ar gyfer busnes
Y llynedd, fel rhan o sialens costau ein busnesau, llwyddwyd i osgoi dros 33 miliwn cilometr o deithio gyda char cwmni a 6,700 tunnell fetrig o CO2 , a gynorthwywyd gan ddefnydd ein gweithlu o gyd-wasanaethau cynadledda awdio, fideo a gwefan o'r gweithle neu gartref.

Rheoli'r amgylchedd
Ardystir ein system rheoli'r amgylchedd i safonau ISO14001 yn y DU, Gwlad Belg, Iwerddon , Yr Almaen, Yr Isalmaen a'r Eidal. Mae gan BT Sbaen ardystiad EMAS.

Gwastraff ac ailgylchu
Eleni, llwyddwyd i ostwng 15% o'r gwastraff a anfonir i safleoedd tir-lenwi o'i gymharu â 2009, ac ailgylchwyd 44% o'n gwastraff yn fyd eang, gan gwrdd â'n targed. Yn 2010 hefyd adenillwyd ac ailgylchwyd 8,444 km (76,000 tunnell fetrig) o geblau copr diangen o'n rhwydwaith yn y DU.

Dod â phopeth at ei gilydd ar gyfer 2012

Fel partner swyddogol gwasanaethau cyfathrebu ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012, mae BT yn gweithio i sicrhau bod y Gemau'n llwyddiant i fyd chwaraeon, i'r DU, i'r bobl fydd yn gwylio a chymryd rhan ac i'r cymunedau sy'n byw yn ymyl lleoliadau Llundain 2012.

Gan weithio gyda'n cyd-bartneriaid technolegol Llundain 2012, ni fydd yn cario pob delwedd, pob sylwebaeth, pob adroddiad chwaraeon a phob ymweliad â gwefan Gemau Llundain 2012 ynghyd â miliynau o alwadau, e-byst a negeseuon testun. Rydyn ni'n gwneud buddsoddiad enfawr i ddod â thechnoleg a rhwydweithiau cyflym, dibynadwy a chadarn BT i bob un o'r 94 lleoliad ar gyfer Gemau Olympaidd 2012 Llundain a'r Gemau Paralympaidd.

Fel un o chwe Phartner Cynaladwyedd Llundain 2012, rydyn am adael ôl parhaol drwy wneud y gorau o'r hyn a wnawn orau – dod â phobl at ei gilydd drwy ddefnyddio technolegau eco-effeithlon. Rydyn ni'n dylunio'n gwasanaethau cyfathrebu i leihau'r effaith amgylcheddol, yn gweithredu'r datrysiad cyntaf erioed sy'n defnyddio rhwydwaith cydgyfeiriol ar gyfer y gemau gyda rhwydwaith ffibr a gaiff ei ailddefnyddio gymaint â phosibl gan gartrefi a busnesau ar ôl y Gemau. Rydyn ni hefyd yn mesur effaith ein gwasanaethau gan ddefnyddio methodoleg ôl troed carbon newydd a byddwn yn dysgu gwersi a ddysgwyd am arbedion ar gyfer gemau'r dyfodol, gweler tudalen 7.

Rydyn ni am ymglymu cymaint o bobl â phosibl yn y Gemau ac elwa o'r profiad. Bydd gweithlu BT yn cymryd rhan fel gwirfoddolwyr yn ystod y Gemau ac mae dros 1000 eisoes wedi arwyddo i gymryd rhan mewn prosiectau yn y cyfnod i fyny at y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd, gan gynnwys rhaglen i wella camlesi a rhodfeydd ger y Parc Olympaidd. Rydyn ni'n buddsoddi mewn rhaglenni addysgol sy'n helpu pobl ifanc ar draws y DU i gymryd diddordeb yn y Gemau ac ar yr un pryd datblygu eu sgiliau cyfathrebu a gyda'n cymorth cefnogi mae Canolfan Etifeddiaeth (Legacy Centre) newydd gael ei adeiladu tu allan i'r Parc Olympaidd fel adnodd ar gyfer pobl ifanc yn yr ardal.

Rydyn ni erbyn hyn yn ail flwyddyn ein nawdd pedair blynedd o Gwpan Byd Paralympaidd BT fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i chwaraeon i'r anabl ac wrth gydweithio gyda'r 'Lord's Taverners', byddwn yn adeiladu 12 ystafell synhwyraidd ar draws y wlad ar gyfer pobl ifanc gydag anableddau a sialensiau cyfathrebu.

Gwneud i bethau ddigwydd

Rydyn ni'n integreiddio cynaladwyedd i mewn i'n dull o redeg ein busnes. Rydyn ni'n mesur ein perfformiad ac yn agored wrth riportio ar ein cynnydd.

Mae gennym bedwar tîm arweinyddiaeth busnes cynaladwy sy'n goruchwylio ein hymdrechion ac yn gyrru cynnydd yn ei flaen. Mae'r rhain yn cynnwys ein Pwyllgor Grŵp ar gyfer Busnes Cyfrifol a Chynaladwy a gadeirir gan Syr Michael Rake, ein Cadeirydd. Mae ein Panel Arweinyddiaeth o arbenigwyr allanol yn archwilio ein hymdrechion a darparu cyngor ac adborth gwerthfawr.

Gallwch ddarllen eu barn ar dudalen 5, 6, 10 a 15. Dim ond drwy ymglymu ein gweithlu a'u help i weithredu y gallwn gyflawni'n nodau cynaladwy, gweler tudalennau 9-11.

Rydyn ni wedi datblygu dangosyddion perfformiad allweddol i'n helpu i fesur a riportio ar ein perfformiad ac rydyn ni'n gosod targedau heriol i'n cadw ar flaena'n traed, gweler tudalen 16 a thudalen 17.

Rheoli risgiau a chyfleoedd

Rydyn ni'n mesur y risgiau mwyaf arwyddocaol i BT yn gymdeithasol, amgylcheddol a moesegol yn ein cofrestr risg 'CR'. Caiff hwn ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn a'i adolygu'n flynyddol gan ein Panel Arweinyddiaeth a'n Bwrdd. Dyma ein risgiau CR allweddol cyfredol:

- Tor–integriti yn arwain i golli ymddiriedaeth yn BT
- Lliniariad newid hinsawdd
- Addasiad newid hinsawdd
- Effaith amrywiaeth ar berthynas â'r gweithlu a gwasanaethau cwsmer
- Risgiau iechyd a diogelwch i'r gweithlu a'r cyhoedd wrth iddyn nhw ymwneud â gweithgareddau BT
- Colli ymddiriedaeth oherwydd i wybodaeth breifat am gwsmeriaid gael ei ryddhau'n anfwriadol
- Amodau gwaith annerbyniol yn y gadwyn gyflenwi.

Rydyn ni'n defnyddio map cyfleoedd i ddangos cynnyrch a darpar gynnyrch a gwasanaethau carbon isel sy'n bodoli a'u hapêl nhw i'r farchnad. Mae'r siart yn arddangos datrysiadau dichonol, eu refeniw dichonol a'r gostyngiad carbon dichonol. Dyma rai o'r cyfleoedd rydyn ni wedi eu hystyried: cyfrifiadura cwmwl, cynadledda ac Awtomatiaeth Maes Grym.

Difateroli ydy cynnyrch rhithiol sy'n disodli un materol, er enghraifft telegynadledda yn disodli'r angen i deithio.

Risg CR Allweddol



Map cyfleoedd economi carbon isel



Ein hadroddiadau

Rydyn ni'n defnyddio'r broses fateroliaeth i ddynodi'r materion CR mwyaf perthnasol ac arwyddocaol ar gyfer ein busnes a'n budd-ddeiliaid. Rydyn ni'n adrodd am y pynciau materoliaeth pwysicaf yn yr arolwg hwn ac ar-lein. Mae'r siart yn cynnwys esiamplau o ble caiff y pynciau eu trafod. Caiff pynciau pwysig ond llai arwyddocaol a'n dulliau o ymdrin â materoliaeth eu trafod yn fwy manwl yn ein adroddiad ar-lein. Gweler **www.bt.com/betterworld**

Trafod ein pynciau materoliaeth



Barn eraill

Mae ein Panel Arweinyddiaeth o arbenigwyr allanol ar gynaladwyedd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Mae eu cyngor a'u cyfarwyddyd yn ein helpu i wella ac annog BT i ymdrechu bod yn flaengar ym maes cynaladwyedd. Gallwch ddarllen sylwadau'r panel ar yr Arolwg o Gynaladwyedd isod ac ar dudalen 5, 6 a 10.

Prawf gorau o ymrwymiad unrhyw gwmni i gynaladwyedd a chyfrifoldeb corfforaethol yw sut mae'n ffynnu yn ystod cyfnodau o gyni yn ogystal â chyfnodau llewyrchus. Bu'n flwyddyn galed i BT, dan bwysau o orfod wynebu cystadleuaeth ffyrnig tra'n ymdrechu i wella boddhad cwsmeriaid a chynnal buddsoddiadau sylweddol Ymchwil a Datblygu (R&D) y mae ei ddyfodol yn dibynnu arnyn nhw.

Yn ffodus, mae ymrwymiad BT i gynaladwyedd corfforaethol yn parhau'n gadarn. Ond nid BT bellach yw'r cwmni ar ben Mynegai Cynaladwyedd Dow Jones, ar ôl bod wyth mlynedd ar y brig. A dydy'r pum blaenoriaeth strategol a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn hon ddim yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn yn benodol (er ei fod yn cael ei bwysleisio yn 'nod corfforaethol' BT). Mae'r ddau ddatblygiad yn ein hatgoffa na ellir cymryd llwyddiant yn ganiataol a bod rhaid meithrin arweinyddiaeth drwy'r holl gwmni.

Rhaid mai perfformiad BT i gyflenwi yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol – KPI (gweler tudalen 16 ac 17) yw man cychwyn y Panel Arweinyddiaeth ac mae'r dangosyddion hyn yn dangos blwyddyn arall o gynnydd cyson. Fodd bynnag, mae pethau'n symud yn eu blaen a dydyn ni ddim bellach yn argyhoeddedig mai hwn yw'r dull gorau o fesur cynnydd, heb sôn am gynnal lefel uchelgais y mae angen i BT anelu ati. Felly, rydyn ni wedi argymell i BT y dylai adolygu'r KPIs hyn er mwyn arwain datblygiadau.

Y trafodaethau mwyaf cyffrous a gynhalion ni y llynedd oedd y rhai ar Strategaeth Rheoli Carbon BT. Er bod Llywodraeth y DU mewn gwirionedd wedi cosbi cwmnïau fel BT sydd wedi buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy, mae BT yn parhau i ddangos arweinyddiaeth rhyfeddol yn y maes hwn.

Bu BT yn fwy araf i ddal gafael ar y cyfleoedd sy'n dod yn sgil y trawsnewid i economi isel ei garbon, yn rhannol oherwydd ei fod yn gyfraniad na ellir cyffwrdd a'i fod yn seiliedig ar wasanaeth. Ond, bydd mesuryddion smart, adeiladau smart, gridiau smart, rhwydweithiau integredig a seilwaith, a bywydau isel eu carbon yn dibynnu ar ragor o bethau newydd a thechnolegau newydd – mae nifer o gwmnïau eisoes yn paratoi'n gystadleuol ar gyfer y byd gwahanol hwnnw.

Rhaid i'r holl ddiwydiant TGCh hefyd ymgodymu â sgôp y technolegau y gellir eu gweithredu ar y we i gynyddu allyriadau CO_2. Mae hon yn sialens ychwanegol sylweddol sydd angen sylw dwys a chyflym, neu fe beryglir y canfyddiad o'r sector TGCh fel 'sector glân a gwyrdd'. Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddeialog gyda BT ar hyn yn ystod y cyfnod nesaf.

Dydy'r sialensiau ddim yn mynd yn ddim haws! Rhaid i bob cwmni weithredu'n galetach i gwrdd â'r sialensiau hynny. Ac mae'r cyfraniad y mae BT yn parhau i wneud i'r maes hwn mor hanfodol ag erioed.

Jonathon Porritt
Cadeirydd y panel a chyd-sylfaenydd a chyfarwyddwr rhaglen y 'Forum for the Future', gweithgor trafod datblygiad cynaladwy yn y DU

Mark Goyder
Cyfafwyddwr Sylfaenydd, 'Tomorrow's Company', a gweithgor trafod busnes

Elisabeth Laville
Sylfaenydd-Gyfarwyddwraig 'Utopies', ymgynghoriaeth gynaladwy wedi'i lleoli ym Mharis

Jørgen Randers
Athro strategaeth hinsawdd yn Ysgol Rheolaeth Norwy

Nick Robins
Pennaeth Canolfan Rhagoriaeth Newid yn yr Hinsawdd yn HSBC yn Llundain

Datganiad aswiriant LRQA

Mae "Lloyd's Register Quality Assurance Limited (LRQA)" yn aswirio'r arolwg hwn a'n cronfa ddata ar-lein yn ôl safonau'r "AA1000 Assurance Standard (2008)". Gallwch ddarllen eu sylwadau llawn yn ein hadroddiad ar-lein.

Yn seiliedig ar y telerau ymrwymo, gellir crynhoi canlyniadau'r LRQA fel â ganlyn:

- Mae BT yn cydymffurfio ag Egwyddorion Atebolrwydd yr AA1000 ar Gynwysoldeb, Materoldeb ac Ymatebolrwydd
- Mae'r wybodaeth benodol ar berfformiad cynaladwyedd yn ddibynadwy
- Mae hunan-ddatganiadau BT am lefel gweithredu GRI G3 A+ wedi eu datgan yn deg

Sut gwnaethon ni eleni

Rydyn ni'n defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol anariannol i fesur ein cynnydd. Mae'r tabl hwn hefyd yn cynnwys costau uniongyrchol i BT mewn perthynas â'n perfformiad amgylcheddol a chymdeithasol, yn unol ag egwyddorion y Fframwaith Adroddiad Cysylltiedig (CRF). Caiff gwybodaeth o'r tabl hwn eu cynnwys yn ein Hadroddiad Blynyddol a Ffurflen 20-F.

Dangosyddion 'CR' Allweddol

	Dangosyddion allweddol	Dangosyddion anariannol Targed 2010	Canlyniadau 2010		Canlyniadau 2009	Canlyniadau 2008
Cwsmeriaid	**Gwasanaeth cwsmer** Mesuriad o lwyddiant ar draws holl faes cwsmeriaeth BT	Gwella'r gwasanaeth cwsmeriaid yn seiliedig ar gywiro materion ar y cynnig cyntaf (RFT) yn unol â'n cerdyn sgôr corfforaethol (gweler tud. 12)	**10.5%** Gwelliant ar y gwasanaeth RFT ers 2009		**17%** Gwelliant ar y gwasanaeth RFT ers 2008	**9%** Gwelliant ar y gwasanaeth RFT ers 2007
Y Gweithlu	**Indecs ymglymiad y gweithlu** Mesuriad o lwyddiant (allan o 5) perthynas BT â'r gweithlu, drwy'i arolwg blynyddol o agwedd y gweithlu	Cadw neu wella ar lefelau ymglymiad y gweithlu.	**3.58**	✗	**3.61**	**3.60**
	Amrywiaeth Mesuriad o'r amrywiaeth ymhlith gweithlu BT	Bydd BT yn cadw eu lle o fewn y deg uchaf mewn pedwar allan o bump o'r prif feincnodau amrywiaeth. Mae'n cynnwys pedwar meincnod y DU a meincnod amrywiaeth byd-eang Schneider-Ross (o 2008)	Mae BT yn y deg uchaf mewn pedwar allan o bump o'r prif feincnodau amrywiaeth	✓	Mae BT yn y deg uchaf mewn pedwar allan o bump o'r prif feincnodau amrywiaeth	Mae BT yn y deg uchaf mewn pedwar allan o bump o'r prif feincnodau amrywiaeth
	Iechyd a Diogelwch: Graddfa colli gwaith oherwydd anaf Achosion colli oriau gwaith wedi eu gosod fel cyfartaledd dros flwyddyn dreigl am bob 100,000 o'r oriau a weithiwyd	Lleihau i 0.157 achos	**0.209** achos	✗	**0.160** achos	**0.188** achos
	Iechyd a Diogelwch: Graddfa absenoldeb oherwydd salwch Canran o'r dyddiau calendr gollwyd oherwydd salwch wedi ei fynegi fel cyfartaledd dros flwyddyn dreigl	Lleihau i fod yn 1.9% diwrnod calendr wedi ei golli oherwydd salwch	**2.46%**	✗	**2.17%**	**2.43%**
Cyflenwyr	**Perthynas â chyflenwyr** Mesuriad o lwyddiant cyffredinol perthynas BT â'r cyflenwyr, seiliedig ar ein arolwg blynyddol o'r cyflenwyr	Cyrraedd graddfa o 80% neu uwch, yn seiliedig ar y cwestiwn: 'Sut byddech chi'n disgrifio ansawdd perthynas eich cwmni â BT?'	**86%**	✓	**85%**	**78%**
	Masnachu moesegol Mesuriad o weithrediad safon hawliau dynol cadwyn gyflenwi BT	Cael dilyniant o 100% o fewn tri mis yn achos cyflenwyr wedi eu canfod fel rhai o risg uchel neu ganolig, drwy ein holiaduron ar safonau moesegol	**180** asesiad risg gyda dilyniant o 100%	✓	**78** asesiad risg gyda dilyniant o 100%	**234** asesiad risg gyda dilyniant o 100%
Gwella cymdeithas	**Mesuriad o effeithiolrwydd cymunedol** Arfarniad annibynnol o'r rhaglen gymunedol	Cadw'r sgôr arfarniad i fod dros 90%	**96%**	✓	**91%**	**79%**
	Buddsoddi yn y gymdeithas	Cadw i fuddsoddi isafswm o 1% o'r elw cyn-treth gwaelodol	**1.05%**	✓	**1.01%**	**1.02%**
Yr Amgylchedd	**Allyriadau cyfwerth CO_2 (CO_2e)**[3] Mesuriad o effaith BT ar newid hinsawdd	Erbyn Rhagfyr 2020, bydd 'BT Group' wedi lleihau ei arddwysiad allyriadau CO_2 o 80% o'u cymharu â lefelau 1997. Gosodwyd y targedau yn 2008	CO_2e 801,000 tunnell fetrig **51%** o leihad **54%** o leihad mewn arddwysedd	→	CO_2e 860,000 tunnell fetrig **47%** o leihad **46%** o leihad mewn arddwysedd	CO_2e 888,000 tunnell fetrig **45%** o leihad **54%** o leihad mewn arddwysedd
	Gwastraff sy'n mynd i dirlenwi ac ailgylchu Mesuriad o'r defnydd o adnoddau BT	Bydd 'BT Group' yn lleihau 8% ar y tunelledd o wastraff sy'n mynd i dirlenwi o'i gymharu â lefelau 2009	**15%** llai o wastraff yn mynd i dirlenwi ers 2009	✓	**17%** llai o wastraff yn mynd i dirlenwi ers 2008 (Y DU yn unig)	**22%** llai o wastraff yn mynd i dirlenwi ers 2007 (Y DU yn unig)
Integriti	**Mesuriad o berfformiad moesegol** Indecs (allan o 5) o lwyddiant ymwybyddiaeth a hyfforddiant gweithlu BT	Rydyn ni'n bwriadu ehangu'r dangosydd hwn i gynnwys yr holl bolisïau perthnasol gan gynnwys ein rhai newydd ar atal llwgrwobrwyo a llygru	**4.10** (Mesuriad newydd)		**77%** Mesuriad blaenorol (ymwybyddiaeth y gweithlu o'n Datganiad Arferion Busnes)	**83%**

1 Wedi ei gymhwyso yn unol â'r adroddiad blynyddol a chyfrifon i gynnwys rhyng-gyswllt, comisiynau, gwasanaethau cyhoeddus a'r graddfeydd
2 Lle bydd ein cyflenwyr yn cytuno bod BT yn sicrhau bod y pryniant, cyflenwi, defnyddio a gwaredu'n digwydd mewn modd cyfrifol yn gymdeithasol ac amgylcheddol (wedi eu codi o'r ymatebion yn ein holiadur cyflenwyr)
3 Mae ein hallyriadau carbon wedi eu datgan o'r newydd i adlewyrchu'r newid yn y ffactorau allyrru a gyhoeddir gan y llywodraeth a'r cywiriadau anfaterol

Allwedd i'r symbolau

- ✓ targed 2009 wedi'i gyflawni
- ✗ targed 2009 heb ei gyflawni
- → Targed parhaus

31 Mawrth 2011 ydy dyddiad cau pob targed oni nodir yn wahanol.

Dangosyddion anariannol Targed 2011	Dangosyddion ariannol	2010	2009	2008	
Mae Cywiro ar y Cynnig Cyntaf (Right First Time) yn parhau i fod yn flaenoriaeth gan BT a rydyn ni'n anelu i wneud gwelliannau sylweddol pellach yn 2011	**Cyfanswm refeniw wedi'i gymhwyso**	£20,911m	£21,431m	£20,704m	Cwsmeriaid
	Cyfartaledd refeniw fesul aelwyd defnyddiwr (DU)	£309	£287	£274	
Cadw neu wella ar lefelau 2010 ar ymglymiad y gweithlu	**Costau gweithlu**	£5,004m	£5,616m	£5,358m	Y Gweithlu
	Niferoedd y gweithlu (rhan a llawn amser a rhannu swydd)	97,798	107,021	111,858	
Bydd BT yn cadw eu lle o fewn y deg uchaf mewn pedwar allan o bump o'r prif feincnodau amrywiaeth. Bydd pedwar o'r meincnodau hyn yn rhai seiliedig yn y DU a'r pumed meincnod amrywiaeth yn un byd-eang	**Nid ydym wedi llwyddo i ddatblygu mesuriad ariannol addas**				
Gostwng i 0.180 achos	**Cost i'r busnes oherwydd anafiadau sy'n achosi i rai fod yn absennol o'r gwaith**	£5.6m	£7m	Mesur newydd yn 2009	
Gostwng i 2.21% o ddyddiau calendr oherwydd salwch	**Costau tâl salwch BT**	£95.4m	£85.2m	£89.8m	
Cyrraedd graddfa o 80% neu uwch yn seiliedig ar y cwestiwn: 'Sut byddech chi'n disgrifio ansawdd perthynas eich cwmni â BT?'	**Cyfanswm y gwariant drwy'r cyflenwyr allanol**[1]	£12.0bn	£13.0bn	£12.8bn	Cyflenwyr
Cael dilyniant o 100% o fewn tri mis yn achos cyflenwyr sydd wedi eu canfod fel rhai o risg uchel neu ganolig, drwy ein holiaduron ar safonau moesegol	**Gwerth y cytundebau caffael**[2]	86% o wariant cyflenwi	83% o wariant cyflenwi	66% o wariant cyflenwi	
Cadw'r sgôr arfarniad i fod dros 90%	**Buddsoddiad busnes cyfrifol, cynaladwy** (cymorth amser, arian a chymwynas neu nwyddau)	£26.4m	£25m	£22.3m	Gwella cymdeithas
Cadw i fuddsoddi isafswm o 1% o'r elw cyn-treth gwaelodol					
Erbyn Rhagfyr 2020, bydd 'BT Group' wedi lleihau ei arddwysiad allyriadau CO_2 o 80% o'u cymharu â lefelau 1997. Gosodwyd y targedau yn 2008	**Cyfanswm costau ynni** (trydan + tanwydd cerbydau + nwy + olew + disel ar gyfer generaduron wrthgefn ayb; y DU ac Iwerddon yn unig)	£285m	£247m[4]	£194m	Yr Amgylchedd
Bydd 'BT Group' yn lleihau 10% ar y tunelledd o wastraff sy'n mynd i dirlenwi o'i gymharu â lefelau 2010	**Incwm o ailgylchu**	£6.65m	£7.42m	£6.7m	
	Arbedion treth tirlenwi	£0.96m	£1.15m	£0.89m	
	Costau gwastraff	£(6.0m)	£(7.90m)	£(7.27m)	
	Arbedion gwastraff net / (cost)	£1.61m	£0.67m	£0.32m	
Cynnal neu wella ar ein sgôr indecs yn 2010	**Cymorth refeniw**[5] (cynigion cwsmeriaid gydag elfen o gynaladwyedd)	£2.1bn	£1.5bn[5]	£2.6bn[5]	Integriti

4 Yma mae ein costau ynni wedi eu cymhwyso i gynnwys costau tanwydd yn 2009
5 Yn ystod y flwyddyn, rydyn ni wedi gwella'r modd rydyn ni'n casglu'r data hwn ac felly wedi nodi'r ffigyrau hynny

Diolch am ddarllen yr hyn sydd ganddon ni i'w ddweud – nawr rydyn ni am wrando arnoch chi. E-bostiwch eich sylwadau at **yourviews@bt.com** a rhoi eich barn am yr arolwg hwn a chynaladwyedd yn BT.

BT Group plc

Swyddfa gofrestredig: 81 Newgate Street, Llundain EC1A 7AJ. Rhif Cofrestriad yn Lloegr a Chymru: 4190816. Cynhyrchwyd gan y 'BT Group'.

Argraffwyd gan Gemini Digital Colour Ltd. Cynhyrchir y deunyddiau 'Revive Offset 50:50', drwy ddefnyddio 50% o ffibr gwastraff wedi ei adfer a 50% o ffibr coed newydd. Mae'r cyfan o'r mwydion coed yn elfennig ddi-glorin (ECF). Mae logo'r FSC yn dynodi cynnyrch sy'n cynnwys coed o fforestydd wedi eu rheoli'n dda ac wedi eu hardystio yn unol â rheolau'r Cyngor Stiwardio Fforestydd (Forestry Stewardship Council).

www.bt.com PHME 59916

Ailgylchwch, os gwelwch yn dda

Mixed Sources
Product group from well-managed forests and recycled wood or fiber
www.fsc.org Cert no. TT-COC-002251
© 1996 Forest Stewardship Council

sustainability partner

By Appointment to
Her Majesty The Queen
Suppliers of Communications, Broadband and Networked Services
BT
London